



Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

Boundary Commission  
for Wales

Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

# Gwrandawiadau

## Cyhoeddus:

### Wrecsam

Trawsgrifiad o'r Gwrandawriad Cyhoeddus

## Wrecsam

### Allwedd

SP: Steven Phillips (Cadeirydd a Chomisiynydd Cynorthwyol)  
SW: Shereen Williams (Prif Weithredwr y Comisiwn Ffiniau i Gymru/Ysgrifennydd)  
SB: Simon Baynes (AS)  
DO: Dewi Owens  
AC: Andrew Clemes (Cadeirydd a Chomisiynydd Cynorthwyol)  
JD: James Davies (AS)  
PR: Paul Rogers (Cynghorydd)  
GD: Gwenllian Lansdown Davies (Comisiynydd Cynorthwyol)  
AM: Arun Midha (Comisiynydd Cynorthwyol)  
DJ: David Jones (AS)  
CH: Chris Hall  
IH: Ian Harrison  
RH: Robert Harvey  
GD: Glyn Davies (Cadeirydd y Ceidwadwyr Cymreig)  
SA: Sarah Atherton (AS)  
MD: Meurig Lloyd Davies  
P1: Cyfranogwr 1  
P2: Cyfranogwr 2  
P3: Cyfranogwr 3  
P4: Cyfranogwr 4

[Mae'r trawsgrifiad yn dechrau ar 00:00:00]


SP: Gyda'n gilydd fel Comisiynwyr Cynorthwyol, rydym yn gyfrifol am ddadansoddi'r holl gynrychiolaethau sydd wedi dod i law ynghylch y cynigion cychwynnol, a chyflwyno adroddiad i'r Comisiynwyr maes o law ynghylch a ddylid diwygio'r cynigion cychwynnol hynny.

Rydym yn annibynnol, ni chwaraeom unrhyw ran yn y gwaith o lunio'r cynigion cychwynnol, ac yn y bôn, nid ydym yma i gefnogi neu wrthwynebu'r cynigion hynny; rydym yma i wrando, i gasglu tystiolaeth ac i wneud ein hargymhellion.

Felly, cychwynnodd yr ail gyfnod ymgynghori'r wythnos ddiwethaf, ar 17 Chwefror, a bydd yn rhedeg tan 30 Mawrth, i gyd-fynd â phum gwrandawriad cyhoeddus ledled Cymru, a dyma'r ail o'r rhain. Byddwn yn trin yr holl gynrychiolaethau a dderbynnir ar lafar neu'n ysgrifenedig yn gyfartal, p'un a ydynt yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae gan y siaradwyr heddiw, ac yn y gwrandawriadau eraill, y cyfle i wneud cynrychiolaethau atodol, ysgrifenedig o fewn y terfyn amser a amlinellwyd gennyf, ond byddai'n ddefnyddiol i ni pe gallai'r cynrychiolaethau hynny gynnwys enw'r person, eu hardal breswyl, ac unrhyw ymlyniad sydd ganddynt, neu a ydynt yn siarad ar eu rhan eu hunain. Ac mae'n bwysig bod y cynrychiolaethau hynny'n dod i law erbyn 30 Mawrth gan na fyddwn yn gallu ystyried cyfraniadau a wneir ar ôl y dyddiad hwnnw.

[00:01:41]



Yn yr un modd, ni fyddwn yn gallu mynd i'r afael â materion sydd eisoes wedi'u pennu gan Senedd y Deyrnas Unedig (DU), ac ni af i fanylion trylwyr ar yr holl faterion hynny ar hyn o bryd. Mae'r manylion i'w cael yn y cynigion cychwynnol. Ond diben y gwrandawriad hwn, y gwrandawiadau hyn mewn gwirionedd, yw rhoi cyfle i bobl gyflwyno cynrychiolaethau ynghylch lle'r ydym yn y broses, yng nghyd-destun y cynigion cychwynnol, ac mae nifer o ffyrdd gwahanol y gellir gwneud y cynrychiolaethau hynny, drwy ymgynghoriad y Comisiwn, a hefyd yn ysgrifenedig, drwy e-bost, ac ati.

Felly, bydd trawsgrifiadau'r gwrandawiadau hyn ar gael, fel y gallwn ystyried yr hyn a ddywedwyd yn y gwrandawiadau, a cheir rhywfaint o gyfrinchedd yma, yn yr ystyr na fydd cyfeiriadau cyfranwyr unigol yn cael eu cyhoeddi.

Rwy'n mynd i gynnal hyn, y trafodion heddiw, mor anffurfiol â phosibl. Mae gennym restr o siaradwyr, byddwn yn clywed gan yr un cyntaf mewn eiliad, ond mae'n bwysig ein bod yn ceisio cadw at yr amserlen. Felly, dewch i'r ddarlithell i wneud eich cyfraniad, rhwch eich enw, eich ardal breswyl, unrhyw gysylltiad os oes gennych un, a nodwch y bydd pob cynrychiolaeth yn cael ei chofnodi ar gyfer y trawsgrifiad y soniais amdano yn gynharach.

Nid wyf yn bwriadu caniatáu croesholi, nid yw hwn yn ddigwyddiad chwylsol, ond gallaf ganiatáu cwestiynau, mae'n bosibl y bydd cwestiynau gennyf fi neu fy nghydweithwyr, gall aelodau'r gynulleidfa holi cwestiynau drwof fi fel Cadeirydd, a gofynnir i unrhyw holwr ddarparu'r un manylion â'r hyn wyf wedi'i amlinellu mewn perthynas â'r prif siaradwyr. Rhaid i chi gadw at yr amser a neilltuir i chi; fel arall, mae'n bosibl y torrir ar eich traws. Bydd cydweithiwr yn cael rhybudd o ddau funud, fel petai, neu rybudd o wyth munud, y dylwn ei ddweud.


Mae croeso i chi annerch y gwrandawriad yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel y gwelwch orau, ond bydd yn ddefnyddiol – mae gennym wasanaethau cyfieithu yma – pe gallech nodi wrth gychwyn pa iaith rydych yn ei defnyddio .

Rwy'n mynd i ofyn i Shereen i amlinellu rhai trefniadau sylfaenol yn fuan, ac edrychwn ymlaen at glywed eich cyfraniadau yn ystod y diwrnod. Shereen.

SW: Bore da. Mae'n iawn, byddaf ychydig yn agosach. Bore da. Dim ond sôn am rai materion o ran y trefniadau. Does dim prawf larwm tân wedi'i drefnu ar gyfer heddiw, felly os bydd yn swnio, bydd o ddifrif, a bydd angen i ni wneud ein ffordd i'r allanfeydd tân a chyfarfod yn y prif faes parcio. Mae taflenni, y llyfrynau a'r cynigion cychwynnol i'w cael ar y ddesg flaen, os ydych eisiau cymryd rhai.

Fel y soniodd Steve, mae gwasanaeth cyfieithu ar gael. Os hoffech wneud eich cyfraniad yn Gymraeg, mae croeso i chi wneud hynny. Mae trafodion heddiw yn cael eu ffrydio'n fyw ar hyn o bryd ac mae recordio ar waith at ddibenion trawsgrifio. Felly, peidiwch â defnyddio eich dyfeisiau personol i dynnu lluniau neu recordio'r trafodion. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu Trydar, tagiwch ni yn [anghlywadwy 00:05:05] Cymru. Ac yn olaf, byddem yn ddiolchgar pe bai ffonau symudol yn cael eu tawelu er mwyn peidio â tharfu ar y trafodion.

[00:05:10]



Yn y gwrandawriad heddiw, bydd y panel yn eistedd tan 8pm. Mae gennym restr o siaradwyr wedi'u hamserlennu trwy gydol y diwrnod i wneud eu cyfraniadau. Rydym wedi trefnu egwyl ginio rhwng 12 ac 1, a gallwn gael seibiannau byr ar adegau eraill yn ystod y diwrnod yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.

Felly, rwy'n mynd i ddefnyddio fy amser heddiw i drafod y broses [anghlywadwy 00:05:31] yn ogystal â chynigion y Comisiwn. Wrth ddatblygu'r cynigion, mae'r Comisiwn eisiau ystyried y ffactorau statudol a nodir yn y ddeddfwriaeth. Felly, pethau fel ystyriaethau daearyddol arbennig, ffiniau llywodraeth leol a chysylltiadau lleol, a ffiniau etholaethau presennol. Fel y gwyddoch, ni all unrhyw etholaeth yn y DU fod â mwy na 105% neu lai na 95% o gwota etholiadol y DU, sef 73,393 o etholwyr. Mae hyn yn golygu y bydd nifer yr etholaethau yng Nghymru yn gostwng o 40 i 32, a rhaid i bob etholaeth, ac eithrio Ynys Môn, fod â rhwng 69,724 o etholwyr a 77,062 o etholwyr.

Mae Cymru wedi'i rhannu'n gyfan gwbl yn gymunedau, a defnyddir y cymunedau a'u wardiau i greu wardiau etholiadol yng Nghymru; felly, mae'r Comisiwn wedi defnyddio wardiau etholiadol fel sylfeini ar gyfer cynllunio etholaethau Seneddol. Rydym wedi ceisio osgoi rhannu wardiau etholiadol rhwng etholaethau, gan eu bod yn unedau sydd wedi'u diffinio'n dda ac mae dealltwriaeth dda ohonynt, ac yn gyffredinol maen nhw'n dynodi ardaloedd sydd â chymuned fuddiant eang.

Pan lansiodd y Comisiwn ei gynigion ym mis Medi, dyma oedd dechrau'r broses, nid y diwedd. Ar ôl cyhoeddi'r cynigion cychwynnol, cafwyd cyfnod ymgynghori cyntaf y Comisiwn, a gynhaliwyd rhwng 8 Medi a 3 Tachwedd y llynedd. Derbyniwyd 1,211 o gynrychiolaethau, a chyhoeddwyd y rhain ar 17 Rhagfyr.


Rydym yn annog pobl i ystyried y cynigion manwl a'r cynrychiolaethau a gyhoeddwyd a rhoi gwybod i ni beth yw eu barn, ac, yn bwysig, os oes ganddynt wrthgynigion a fyddai'n bodloni gofynion y ddeddfwriaeth. Mae'r gwrandawriad cyhoeddus hwn a'r gwrandawriadau cyhoeddus eraill rydym yn eu cynnal ledled Cymru yn hanfodol i'r broses hon.

Bydd y Comisiynwyr Cynorthwyol yn ystyried yr holl ymatebion a dderbynnir yn ystod y gwrandawriadau, a thrwy gyfrwng y porth ymgynghori, ac yn ysgrifenedig, a byddant yn ystyried yr holl gynrychiolaethau wrth ddatblygu'r adroddiad argymhellion ar gyfer y Comisiwn.

Fel y soniais yn gynharach, cawsom nifer fawr o gynrychiolaethau yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Roedd nifer fach o'r rhain yn gynrychiolaethau a oedd yn ymwneud â Chymru gyfan, a lluniwyd y rhain gan y pleidiau gwleidyddol yn bennaf, a rhai unigolion. Roedd mwyafrif y cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol a dyma rai o'r uchafbwyntiau.

Cefnogwyd etholaeth arfaethedig Caerfyrddin yn gyffredinol gan y cynrychiolaethau a ddaeth i law, ond roedd gwrthwynebiadau yn ymwneud â throsglwyddo cymuned Llangynnwr i etholaeth arfaethedig Llanelli. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn dadlau y dylid cynnwys cymuned Llangynnwr yn etholaeth Caerfyrddin.

[00:08:10]



transcribe this

Wrecsam

Tudalen 3

Derbyniwyd nifer o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu etholaeth arfaethedig Gorllewin Caerdydd, yn bennaf oherwydd cynnwys Pont-y-clun, sydd yn awdurdod Rhondda Cynon Taf. Roedd ymatebwyr yn dadlau y dylai Pont-y-clun aros yn gyfan gwbl o fewn etholaeth Pontypridd neu Rondda Cynon Taf. Roedd nifer o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu etholaethau arfaethedig Merthyr Tudful ac Aberdâr, a Phontypridd, oherwydd rhannu Cwm Cynon. Dadleuwyd y dylid diogelu hunaniaeth Cwm Cynon a chadw'r ardal o fewn un etholaeth.

Roedd nifer o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r cynnig ar gyfer etholaeth arfaethedig De Caerdydd a Phenarth, oherwydd cynnwys Dinas Powys sydd ym Mro Morgannwg, gan ddadlau dros gadw Dinas Powys yn etholaeth Bro Morgannwg. Roedd y gwrthwynebiadau i etholaeth arfaethedig Dwyrain Abertawe a Chastell-nedd yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfuno rhannau o Abertawe â rhannau o Gastell-nedd Port Talbot.

Hefyd, roedd nifer o gynrychiolaethau yn dadlau y dylid cynnwys ardal Pontardawe a Chwm Tawe uchaf yn etholaeth Abertawe ac nid yn etholaeth arfaethedig Aberhonddu a Maesyfed.

Roedd sawl cynrychiolaeth yn gwrthwynebu etholaeth arfaethedig Pen-y-bont, gan ei bod yn rhannu ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr rhwng dwy etholaeth. Roedd rhai'n dadlau na ddylid uno Porthcawl ag Aberafan a Phort Talbot, ac eraill yn cefnogi rhannu'r ardaloedd y tu allan i ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr.

Roedd nifer sylweddol o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu cynigion ar gyfer Aberconwy a Dwyfor Meirionydd. Roedd y cynrychiolaethau'n dadlau y dylai Bangor, y cynigir ei gosod yn Aberconwy, gael ei chynnwys yn gyfan gwbl o fewn etholaeth yn gysylltiedig ag Arfon.


Roedd y prif wrthwynebiadau yn erbyn etholaeth arfaethedig Wrecsam yn deillio o gynnwys Brymbo a Mwynglawdd yn etholaeth gyfagos Alun a Glannau Dyfrdwy. Roedd yr ymatebwyr yn dadlau y dylai'r cymunedau hyn aros yn Wrecsam.

Roedd cefnogaeth i etholaeth arfaethedig Ceredigion Preseli, er bod rhai cynrychiolaethau a ddaeth i law yn datgan y byddai'n well ganddynt gael etholaeth a oedd yn cynnwys awdurdod lleol Sir Penfro yn gyfan gwbl.

Cafwyd gwrthwynebiad cryf i etholaeth arfaethedig Gorllewin Casnewydd a Chaerffili oherwydd ei bod yn cyfuno dwy ardal awdurdod lleol ar wahân. Roedd ymatebwyr yn dadlau y byddai Dyffryn Sirhywi, sydd yn etholaeth Islwyn ar hyn o bryd, yn cyd-fynd yn well â Chasnewydd yn hytrach na Chaerffili.

Roedd gwrthwynebiadau i Ddwyrain Casnewydd mewn nifer fach o gynrychiolaethau a oedd yn gofyn am gadw Cil-y-coed yn Nwyrain Casnewydd, er bod cefnogaeth eang i etholaeth arfaethedig Sir Fynwy.

Roedd nifer fach o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu cyfuno Blaenau Gwent a Rhymni mewn un etholaeth, oherwydd materion amddifadedd. Ni ddarparwyd unrhyw gynigion amgen.



[00:10:30]

Roedd y prif wrthwynebiadau mewn perthynas â Delyn yn ymwneud â'r enw. Roedd ffafriaeth tuag at ddefnyddio Dwyrain Clwyd yn lle Delyn. Roedd sawl cynrychiolaeth yn anghytuno ag etholaeth arfaethedig Clwyd, a dadleuon amrywiol gan gynnwys gosod Llandrillo-yn-Rhos yn hytrach na Llandrillo yng Nghlwyd, a Chorwen o fewn Prestatyn a Dyserth.

Roedd y dadleuon yn erbyn etholaethau arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy a Delyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnwys y Fflint a Bagillt yn Nelyn, gan y teimlwyd y dylai'r rhain fod yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy.

Cafwyd cefnogaeth eang i Faldwyn a Glyndŵr, gyda nifer fach yn gwrthwynebu'r enw.

Diolch am wrando ac am roi o'ch amser i ni heddiw. Rwy'n trosglwyddo'r sesiwn yn ôl i'r gadair er mwyn iddo allu dechrau gwahodd y siaradwyr.

SP: Diolch i chi, Shereen. Heb unrhyw oedi, symudwn at ein siaradwr cyntaf, sef Simon Baynes AS. Mae'r llawr yn agored i chi, syr.

SB: Bore da. Diolch i chi am roi'r cyfle i mi gyflwyno sylwadau i'r Comisiwn. Er eglurder, fy enw yw Simon Baynes, fi yw Aelod Seneddol De Clwyd, ac rwy'n byw ychydig y tu allan i'r Waun.


Fel yr Aelod Seneddol dros etholaeth De Clwyd, rwy'n siomedig, wrth gwrs, bod fy etholaeth, yn ôl cynigion cychwynnol y Comisiwn Ffiniau, wedi'i rhannu rhwng tair etholaeth. Ond, wrth gwrs, rwy'n deall bod y gostyngiad o wyth sedd yng Nghymru yn gofyn am newid sylweddol, ac i bob pwrpas, dileu sedd De Clwyd. Ond teimlais ei bod yn bwysig, fel Aelod Seneddol presennol De Clwyd, i mi ddod yma at y Comisiwn, ei gynrychiolwyr, a siarad ychydig am agweddau ar ailddyrrannu'r wardiau rhwng etholaethau eraill, sydd angen ystyriaeth bellach, yn fy marn i.

Rwy'n falch iawn i allu rhannu fy meddyliau, a meddyliau fy etholwyr, ynghylch y ffordd rydych wedi dyrannu'r wardiau etholiadol yn Ne Clwyd.

Yn gyntaf, fel y crybwyllwyd yn gynharach, rydych wedi awgrymu gosod wardiau Brymbo a Mwynglawdd, sydd ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, gyda wardiau Sir y Fflint o fewn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy. Ar hyn o bryd, nid yw fy etholaeth yn cynnwys unrhyw ward sydd yn Sir y Fflint, felly rwy'n anghytuno â'r cynnig i wahanu'r ddwy ward hyn oddi wrth wardiau eraill ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Pe gwneir hynny, byddai'n golygu y byddai'n rhaid i Fwrdeistref Sirol Wrecsam ymdrin â thri AS yn hytrach na dau, a byddai Alun a Glannau Dyfrdwy yn cynnwys dau awdurdod lleol, yn hytrach nag un. Mae nifer o etholwyr ym Mrymbo a Mwynglawdd wedi mynegi eu siom ynghylch y cynnig hwn a byddai'n llawer gwell ganddynt fod yn gysylltiedig â wardiau eraill Wrecsam.

[00:13:46]



Mae gan y ddwy ward hyn, sef Brymbo a Mwynglawdd, gysylltiadau clos â wardiau cyfagos, megis Coedpoeth a Bryn Cefn, a byddwn yn awgrymu felly y dylid cynnwys y ddwy ward hyn yn etholaeth newydd Wrecsam. Ac wrth ddweud bod ganddynt gysylltiadau clos, rwy'n golygu bod y cymunedau hyn yn rhyng-gysylltiedig iawn o ran perthnasoedd pobl, eu cyfeillgarwch, eu teuluoedd, a hefyd o ran y defnydd o gyfleusterau lleol, y defnydd o ysgolion lleol, llyfrgelloedd, fferyllfeydd ac ati.

Mae fy nghynnig amgen yn erbyn hyn yn hepgor wardiau Wrecsam o'r sedd arfaethedig hon fel bod etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy yn cynnwys wardiau Sir y Fflint yn unig. Mae hyn yn cydymffurfio'n well â rheol y Comisiwn ar gysylltiadau ag awdurdodau lleol.

Dewch i ni edrych ychydig ar yr hyn y mae rhai o'r cynrychiolaethau yn ei ddweud am Frymbo a Mwynglawdd. Er enghraifft, dywed cynrychiolaeth BCW-8862, ac rwy'n dyfynnu, "Rydw i'n siomedig iawn i weld bydd fy nghod post i yn Alyn a Glannau Dyfrdwy gan fy mod yn byw yn agosach i dref Wrecsam ac yn talu trethi i gyngor Wrecsam ac yn defnyddio adnoddau Wrecsam. Dydy ardal Alun a Glannau Dyfrdwy ddim yn berthnasol i fy mywyd i a fy nheulu o gwbl."

Dywed cynrychiolaeth BCW-8870, "Nid yw eithrio Brymbo, Y Mwynglawdd, Tanyfron a Bwlchgwyn o etholaeth arfaethedig Wrecsam (a'u cynnwys yn Alun a Glannau Dyfrdwy yn lle hynny) yn gwneud llawer o synnwyr, ac mae'n chwalu cymunedau heb unrhyw reswm amlwg."

A dywed cynrychiolaeth BCW-8994, ac rwy'n dyfynnu, "Nid oes unrhyw gysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus ag unrhyw un o'r etholaethau eraill yn etholaeth arfaethedig Alun a Glannau Dyfrdwy. Yn sicr, nid oes unrhyw drafniadaeth gyhoeddus, a dim ond ffyrdd B sydd i gyrraedd yr ardal honno."


Felly dyna rai o'r cynrychiolaethau uniongyrchol sydd wedi dod i law, sy'n cyd-fynd i raddau helaeth iawn â'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthyf, a'm gwybodaeth am y ddwy gymuned hynny hefyd.

Pe bai'n cael ei dderbyn, byddai gwrthgynnig yn galluogi ailuno Pant, Johnstown a'r rhan o ward Ponciau, o fewn cymuned Rhosllannerchrugog, â Rhiwabon yn sedd newydd Maldwyn a Glyndŵr, lle mae ganddynt gysylltiadau lleol cryf. Mae ganddynt gysylltiad agos iawn ac maent yn defnyddio llawer o'r gwasanaethau yn Rhiwabon.

Felly, rwy'n meddwl bod hyn eto'n debyg, o ran ei bwysigrwydd, i'r hyn rydym wedi'i ddweud am Frymbo a Mwynglawdd, h.y. bod y cymunedau hyn, Rhos, Ponciau, Pant, Johnstown, â chysylltiad agos iawn ac mae ganddynt glymau cryf, fel y dywedais yn gynharach, o ran teuluoedd, cyfeillgarwch, o ran defnyddio gwasanaethau lleol, ysgolion, a chyfleusterau eraill. Ac rwy'n meddwl y byddent yn cydfodoli'n effeithiol iawn ac yn fwy priodol gyda'i gilydd o fewn yr etholaeth Seneddol honno.

[00:17:16]

Mae un o'r etholwyr ym Mhant a anfonodd gynrychiolaeth, BCW-9202, hefyd yn credu y dylai'r wardiau etholiadol hyn aros gyda'i gilydd. Dywedant, "Rwy'n byw ym Mhoniau, ger Wrecsam, ac mae'n wir iawn bod cymunedau Johnstown, Ponciau, Rhos a Phen-y-cae yn gweithredu fel un gymuned, gan eu bod yn rhannu cymaint o



gyfleusterau lleol fel ysgol uwchradd, meddygon, cwmni tacsis a'r brif stryd fanwerthu yn y Rhos, i enwi ond rhai." Ac rwy'n meddwl bod hon yn gynrychiolaeth dda a chraff iawn o'r hyn y mae pobl yn ei feddwl o fewn y gymuned ehangach honno.

Mae'r ardal arall rwyf eisiau ei chrybwyll wedi'i lleoli yn Sir Ddinbych. Mae cymuned Llangollen yn rhannol ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ac yn rhannol yn Sir Ddinbych, felly mae'n gwneud synnwyr i'w huno yn sedd arfaethedig Maldwyn. Fodd bynnag, mae wardiau Corwen a Llandrillo yn Sir Ddinbych yn fwy ar wahân a gellid eu cysylltu â wardiau eraill Sir Ddinbych i'r gogledd.

Cefais fy magu ychydig i'r de o ward Llandrillo, yng ngogledd eithaf Powys, felly mae'n rhan o'r etholaeth sy'n arbennig o gyfarwydd i mi, gan gynnwys cymeriad a thopograffi'r ardal, natur ei helfen amaethyddol iawn, y busnesau ac yn y blaen, a'r bobl a'r perthnasoedd, y cymunedau, byddent i gyd, rwy'n meddwl, yn byw'n synhwyrol iawn â'r wardiau i'r gogledd, yn Sir Ddinbych.

Mae fy mhwynt olaf yn ymwneud â'r enw Maldwyn a Glyndŵr. Nid wyf o'r farn bod Glyndŵr yn disgrifio'n gywir y wardiau sy'n cael eu hychwanegu at etholaeth Maldwyn. Mae pob un o'r wardiau hyn yn fy etholaeth, a chredaf y byddai De Clwyd yn ddisgrifiad gwell, a fyddai'n sicrhau bod enw'r etholaeth bresennol yn cael ei gadw, ac felly Maldwyn a De Clwyd fyddai'r enw.

Mae'n amlwg bod Glyndŵr yn enw eithriadol o bwysig yn hanes Cymru, ond i fod yn onest, nid wyf yn meddwl ei fod yn arbennig o berthnasol i'r ardal honno ac nid yw'n enw sy'n cael ei ddefnyddio a'i ystyried i raddau helaeth o fewn yr ardal honno, yn hytrach nag ymhellach i'r de yn Sir Drefaldwyn ei hun, neu mewn man arall. Felly, teimlaf, o ran rhyw fath o agwedd ddiwylliannol, nad yw'r enw Glyndŵr yn atseinio yn yr un modd ag y gwna mewn ardaloedd eraill, yn fy rhannau i o Dde Clwyd a fyddai'n mynd i Faldwyn.

Felly, deuaif â'm sylwadau i ben. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am ganiatáu i mi roi'r gynrychiolaeth lafar hon a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb ohonoch a phawb arall sy'n ymwneud â'r Comisiwn am eich gwaith caled a'ch ymdrechion i gasglu safbwyntiau pobl am y newid hwn sy'n angenrheidiol, ond sydd hefyd yn gymhleth ac yn bellgyrhaeddol iawn, i'r ffiniau etholiadol ledled Cymru. Felly, diolch yn fawr iawn i chi.


SP: Diolch yn fawr iawn i chi yn wir. A oes unrhyw gwestiynau o'r llawr? Mae gennyf un pwynt i'w egluro, os caf. Rwy'n meddwl i chi sôn am gymuned Pen-y-cae.

SB: Do.

SP: Mae'r gymuned honno, neu ran ohoni o leiaf, rhan sylweddol ohoni, o fewn ffiniau Maldwyn a Glyndŵr yn y cynigion cychwynnol.


[00:21:14]

SB: Iawn.





- SP: Ac mae ganddi gysylltiad agos ag ardaloedd fel Rhiwabon a'r Waun. Felly, a gaf i fod yn gwbl glir ynghylch beth fyddai eich cynnig. A ydych yn cynnig y dylid dod â Rhiwabon, y Waun, Pen-y-cae, yr holl ardal honno, o fewn Wrecsam?
- SB: Na, dwi ddim. Rwyf ond yn cyfeirio at ddod â rhan o ardal Ponciau, Johnstown, Ponciau, Rhos, i mewn i Faldwyn a'r hyn fydden ni'n ei alw'n sedd De Clwyd.
- SP: lawn.
- SB: A'r gynrychiolaeth..., mae'r cyfeiriad at Bonciau yng nghynrychiolaeth BCW-9202, mewn gwirionedd.
- SP: Diolch yn fawr, mae hynny o gymorth. lawn, os nad oes unrhyw gwestiynau neu sylwadau pellach, diolch yn fawr iawn i chi.
- SB: lawn, diolch yn fawr.
- SP: Diolch.
- SW: Mae David Jones yma.
- SP: Ein siaradwr nesaf yw Mr Dewi Owens.
- DO: Diolch yn fawr iawn i chi yn wir. Sut mae dilyn person proffesiynol yn hyn o beth? Ymddiheuraf y bydd fy nghyflwyniad yn amaturaidd iawn o gymharu â hynny. Mae rhai blynyddoedd ers i mi orfod gwneud unrhyw gyflwyniadau.
- SP: Peidiwch â gofidio.
- DO: Cefais lawer iawn o anhawster wrth ddod o hyd i ffyrdd a dulliau ar gyfer edrych ar y papur, hyd nes i mi siarad â Rhydian, rwy'n meddwl, y diwrnod o'r blaen, a ddangosodd y cyfeiriad cywir o ran rhaglen ar gyfer gwneud y rhaglen. Diolch yn fawr iawn i chi.
- Hoffwn ddiolch i'r Comisiynwyr am ganiatáu i mi siarad fel dinesydd cyffredin o Lanelwy.
- Diolch i'r Comisiwn am y fraint i siarad fel dineswyr o Lanelwy. Bore da i pawb, a croeso ichi i gyd i Sir, i'r pobl o'r Dde Cymru i Gogledd Cymru. Mae'r iaith Cymraeg yn bwysig i fi am fod dyma ydy diffiniad fel, i ni fel genedl. Dyma hanesyddol, diwylliant a dyma pam yr wyf wedi tynnu yr trefniadau yma.
- Bore da, bawb, a chroeso arbennig o gynnes i chi o Dde Cymru i Ogledd Cymru. Mae'r Gymraeg yn bwysig iawn i ni fel cenedl, ac yn wir i bob cenedl. Mae'n ein diffinio, nid yn unig o ran pwyl ydym, ond hefyd yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol, ac mae'n bwysig dros ben bod ffiniau etholaethau yn cael eu llunio yn y fath fodd fel ein bod yn rhoi'r cyfle gorau i'r iaith oroesi am byth.
- Mae'r newidiadau rwyf wedi'u llunio yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn ac ar fy mhrofiad oes o fyw a gwylïo'r newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod fy oes.



[00:24:50]

Roedd rhywun yn gofyn... mae'n rhaid i chi holi'ch hun, [anghlywadwy 00:24:57] arhoswch... fy ymddiheuriadau eto... mae'n rhaid i chi holi'ch hun, beth yw ystyr bywyd? A ydym yn byw i weithio, neu a ydym yn gweithio i fyw? Mae bywyd yn rhy fyr ac mae'n rhaid i bawb ohonom wneud yn siŵr, beth bynnag a wnawn, ein bod yn sicrhau dyfodol gwell i'r cenedlaethau sy'n dilyn. Rydym wedi dewis byw yma yng Nghymru, felly rydym yn geidwaid ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n fater o ffaith, wrth deithio o'r gorllewin i'r dwyrain, mae'r Gymraeg wedi ymseisnigo fwyfwy, a dyna'n union pam mae'n bwysig ein bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol ym mhob agwedd ar fywyd, i osod hyn yn flaenllaw yn ein meddyliau.

Mae'r byd yn newid yn gyflym mewn llawer o ffyrdd na allwn ddylanwadu arnynt, felly mae'n bwysig ein bod ni fel cenedl yn gosod y sylfeini cywir i oroesi fel cenedl, yn ogystal â bod yn rhan bwysig o'r Deyrnas Unedig. Yn anffodus, mae fy meistrolaeth ar dechnoleg gyfrifiadurol yn gyfyngedig iawn ac felly mae fy nghyflwyniad yn ddi-os yn ymddangos yn amaturaid... Rwyf eisoes wedi dweud hynny [chwerthin]... am hyn, ymddiheuraf, ond gobeithio y gallwch chi, fel y Comisiynwyr, newid... eich bod chi, fel Comisiynwyr dros newid, yn gallu proffesiynoli'r hyn rwy'n ceisio'i gyflawni er buddiannau gorau Cymru gyfan fel cenedl, a'i galluogi i chwarae ei rhan fel teyrnas... fel gwlad o fewn y Deyrnas Unedig.


Rwyf wedi byw yng Ngogledd Cymru ar hyd fy 85 mlynedd o fywyd ac mae gennyf radd mewn amaethyddiaeth, a'm galluogodd i deithio'n helaeth yn Ewrop, ac i raddau llawer llai, i rannau eraill o'r byd. Rwy'n ffodus iawn fod gen i ferch, sy'n gyfrifydd yn Chamonix yn Ffrainc, a mab, sy'n gyfreithiwr yn Rhydychen. Efallai eich bod yn holi pam fy mod yn dweud hyn, ond mae'r cyfan yn gefndir i fywyd yng Nghymru. Rwy'n sôn am hyn oherwydd cafodd y ddau eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, a'u galluogodd i ddod yn ddwyieithog o oedran cynnar, ac sydd, yn ddiamau, wedi bod o fudd mawr yn natblygiad y meddwl.

Pan oeddent yn yr ysgol, ni fyddent yn siarad Cymraeg â mi. "Dad, mae dy Gymraeg yn rhy sgyrsiol," a dyna sut y bu erioed. Rwyf wedi bod yn Gymro... es i'r ysgol i ddysgu Cymraeg yn bump neu chwech oed, neu beth bynnag oedd hi'r dyddiau hynny, ac rwy'n siarad Cymraeg, ond nid yw fy iaith, fy ngafael ar y Gymraeg fel, sut gallaf ddweud, person dysgedig, yr un peth.

Yr hyn rwyf eisiau ei ddweud yw, ydi, mae ffyniant ariannol Cymru yn bwysig iawn, wrth gwrs, ond mae'n rhaid gwerthfawrogi bod ochr ddiwylliannol bywyd yr un mor bwysig, ac rwy'n ceisio cynnig ateb sy'n edrych ar y darlun byd-eang.

Wedi dweud hynny, hoffwn ganolbwyntio nawr ar siroedd Gogledd Cymru, sef y siroedd rwy'n fwyaf cymwys i siarad amdanynt. Mae'n bleser mawr gweld bod y Comisiwn wedi penderfynu trin Ynys Môn fel sir ynddi'i hun ac rwy'n falch iawn am hynny, oherwydd mae diwylliant ym Môn o gymuned gref Môn ac mae'n bwysig iawn ei bod yn aros fel y mae. Gwyddwn ei bod yn torri'r rheolau o ran nifer y boblogaeth, ond o leiaf mae ganddi gyfle i fod ei lle ei hun.

[00:29:09]



Ni allaf fynd i lawer iawn o fanylion am siroedd gwahanol, ond mae pob un ohonynt yma, ond... byddaf yn rhoi'r cyflwyniad i chi wedyn i chi edrych arno. Er fy mod yn sylweddoli y gallai fy nghynigion ar gyfer siroedd newydd fod angen rhywfaint o addasiadau, teimlaf mai'r rhaniadau ar y llinellau hyn sydd er y budd gorau i holl drigolion Gogledd Cymru.

Wrth ddod i'r casgliadau hyn, rwyf ym mhob achos wedi ystyried y meini prawf a osodwyd gan y Comisiwn o ran poblogaeth pob etholaeth, sef poblogaeth o 68-, 69,800 o leiaf ac uchafswm o 77,000. Yn ogystal â hyn, rwyf wedi cynnwys ystyriaethau daearegol, ffiniau a oedd yn bodoli yn 2015, a'r ffiniau presennol... ffiniau etholaethau presennol sydd o bwysigrwydd arbennig i gysylltiadau lleol rhwng cymunedau.

Af o'r gorllewin i'r dwyrain. Yn sicr, ni fyddaf yn mynd i fanylion yma am y gwahanol [anghlywadwy 00:30:20], ond maen nhw yma fel y gallai rhywun... efallai na fyddwch yn gallu'i weld oddi yno, ond mae'r llun sydd gennyf yma yn dangos y siroedd gwahanol, ac rwyf wedi'u dangos mewn lliwiau gwahanol, a gallwch edrych arnynt heb frys yn nes ymlaen.

Mae Gwynedd mewn lliw oren, ac fel mae'r map yn dangos, mae'n ymestyn dros Benrhyn Llŷn, dinas brifysgol Bangor, ac i'r de i gynnwys Blaenau Ffestiniog.

O, a wyf i wedi gorffen? O, o iawn.

Mae Aberconwy mewn lliw melyn ar y map. Mae'r etholaeth hon yn cynnwys y rhan fwyaf o fynyddoedd Eryri ac mae'n dilyn Dyffryn Conwy o Landudno yn y gogledd, gan gynnwys y Bala yn y de, ac yna mae'n dilyn Dyffryn Dyfrdwy i Langollen, ac mae mewn lliw melyn.


Mae Gorllewin Clwyd mewn lliw glas ar y map... rwyf wedi enwi'r rhain, mae'n ddrwg gennyf, fel yr hyn rwy'n teimlo gallai fod yn briodol... y rhain, mae'r etholaeth hon yn cynnwys arfordir gogleddol Abergele a Bae Colwyn, i lawr y gefnwlad sy'n cynnwys Mynydd Hiraethog a rhan ddeheuol Dyffryn Clwyd, a threfi Rhuthun ac i'r dwyrain, yr Wyddgrug. Dyma etholaeth wledig yn bennaf, ac mae'r rhan fwyaf o'i phoblogaeth ar yr arfordir ac yn y ddwy dref a nodir uchod.

Mae Gogledd Clwyd, mewn lliw coch ar y map... a'r unig un rwyf wedi gallu gwneud felly [chwerthin]... yn cynnwys trefi'r Rhyl a Phrestatyn ar yr arfordir, ac mae'n ymestyn i ben gogleddol Dyffryn Clwyd, ynghyd â Threffynnon i'r dwyrain. Mae'n cadw rhan ogleddol Sir Ddinbych, ynghyd ag etholaethau gogleddol sir Delyn.

Mae Alun a Glannau Dyfrdwy mewn lliw porffor golau ar y map. Mae'n debyg mai hon yw'r etholaeth fwyaf diwydiannol yng Ngogledd Cymru a daw cyfran uchel o'r gweithwyr o Gymru. O ran maint, dyma'r etholaeth leiaf, a dyma pam mae'n gymuned glos iawn.

Mae Wrecsam, sydd mewn lliw pinc ar y map, yn ddiwydiannol iawn hefyd, a dyma'r dref fwyaf yng Ngogledd Cymru. Unwaith eto, mae'n etholaeth gryno iawn, a dim ond hen ran Maelor sy'n fwy gwledig.

[00:32:58]




transcribe this

Wrecsam


Tudalen 10

Dyna beth rwyf wedi'i wneud, a diolch i chi unwaith eto am ganiatáu i mi... rwy'n teimlo fy mod wedi ceisio rhoi agwedd ar hyn na fyddai ein ASau a'n pobl yn ei wneud. Ond diolch eto.

- SP: Diolch yn fawr iawn i chi. A oes gennym unrhyw gwestiynau o'r llawr?
- DO: Diolch byth am hynny [chwerthin].
- SW: Mae'n ddrwg gennyf, a gaf i gadarnhau eich bod yn mynd i gyflwyno hyn fel cynrychiolaeth ysgrifenedig hefyd, fel y gallwn ei gofnodi fel cyflwyniad ysgrifenedig? A gaf i gadarnhau y byddwch yn cyflwyno eich papurau fel cyflwyniad ysgrifenedig hefyd, fel y bydd gennym gofnod...
- DO: Ydw.
- SW: Ie, iawn. Diolch.
- DO: A wyf i'n ei roi i chi?
- SW: A ydych chi eisiau ei roi i un o'm cydweithwyr, a gallant...
- DO: Iawn, diolch i chi.
- SW: ...gallant sicrhau ein bod yn cadw cofnod priodol ohono.
- DO: Wel diolch yn fawr iawn i chi, a diolch am wrando arnaf.
- SP: Diolch yn fawr iawn am eich cyfraniad. Nid oes gennym ragor o siaradwyr ar hyn o bryd, felly cawn egwyl am gyfnod byr. Mae'n bosibl y bydd siaradwyr eraill yn cyrraedd i wneud eu cyfraniadau, ac mae gennym nifer o siaradwyr y prynhawn yma. Felly, hoffwn ddiolch i'r siaradwyr sydd wedi cyfrannu hyd yn hyn, a byddwn yn torri. Diolch.
- GD: Prynhawn da bawb, a chroeso i wrandawriad cyhoeddus y Comisiwn Ffiniau yn Wrecsam. Dr Gwenllian Lansdown Davies ydy fy enw i, a dwi'n un o'r Comisiynwyr Cynorthwyol, ar fy dde mae Andrew Clemes, sydd hefyd yn un o'r Comisiynwyr Cynorthwyol, ac i fy chwith, Shereen Williams, sydd yn Brif Weithredwr ac yn ysgrifennydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru. 'Da ni ddim yma pnawn 'ma i gyfiawnhau, y cynigion sydd wedi cael eu cyflwyno, yn hytrach, 'da ni yma i wrando. I wrando ar farn y cyhoedd ac i weld p'un a ydi'r cyhoedd yn cytuno, neu yn anghytuno gyda'r cynigion gwreiddiol ac a oes ganddyn nhw gynigion amgen i roid o'n blaenau ni. Mae gan bob siaradwr ddeg munud ac mi fydd fy nghyfaill yn dangos pan fydd gynno chi ddwy funud o'r amser cyflwyno ar ôl. Felly, os fedrwch chi gadw at hynny, os gwelwch yn dda. Felly, pan fydda' i yn eich gwahodd chi i ddod i siarad, a wnewch chi gyflwyno eich hunain, cyflwyno o ba ardal rydach chi'n dod a p'un ai ydach chi yma i gynrychioli chi eich hun, neu yma ar ran unrhyw sefydliad. Ar ôl ichi gyflwyno eich barn, mi fydda' i'n holi'r gynulleidfa, ac yn holi fy ffrindiau ar y panel, p'un ai os oes ganddyn nhw unrhyw gwestiynau i ofyn am eglurhad pellach i'r hyn yr ydych chi wedi ei ddweud. Felly, ga' i wahodd os gwelwch yn dda, y cynghorydd Davies i ddod at y llwyfan, os gwelwch yn dda ac i ni gael clywed ganddo chi. Diolch yn fawr.



- MD: Pnawn da a diolch yn fawr ichi am eich amser. Cynghorydd Meurig Lloyd Davies, o Cefn Meiriadog yn, ddim yn bell o Llanelwy, ond mae'r cyfeiriad yn Abergele. Dwi'n Gynghorydd Cyngor Cymuned Cefn Meiriadog, ag yn Gynghorydd Sir i Sir Ddinbych. Dwi yma ar liwt yn hun, fel 'sa ni'n dweud yn Gymraeg, i dynnu sylw at hwn eto, gallai'm cyfri faint o weithiau dwi di fod o flaen y panel. Ddim chi ond o flaen y panel dros y blynyddoedd ar ôl ichi newid y siroedd a bob math o bethau eraill, ond y ddau beth dwi'n teimlo.... Mae'ch cyfeiriadau chi'n anghywir, 'da chi'n mynd yn ôl rhifau y sedd ac nid yn ôl synnwyr cyffredin. Fel da chi'n gwybod, yng Nghymru, mae yna fwy o ddefaid na sy' na o fobl, ac mae trio, wel mae'n ddigon o waith gwneud sir, neu ward, sy'n perthyn imi felly, cefn gwlad. Mae'n cymryd pythefnos imi fynd rownd pobl i'w gweld nhw ag i siarad hefo nhw, a mae hynny yn dod i fyny ym mis Mai wrth reswm. Felly, does gan Aelod Seneddol ddim gobaith o weld neb, ond o bobl y dre'. Ond i fynd i gefn gwlad, mae'n cymryd oriau. I fyny lôn rhyw ffarm unig, ac erbyn ichi ddod o' na, mae'r pnawn di mynd. Os da chi ym Manceinion, dyma be' maen nhw'n licio ddeud' 'tha ni, neu Birmingham, ellwch chi gerdded i fyny deg neu ugain o strydoedd yn yr amser fasech chi di gweld un person yng nghefn gwlad. Mae eisiau chi gofio hynny, mae gennai ofn. Di llawer o'r Aelodau sydd yn Lloegr mewn trefydd, ddim yn gweld hynny o gwbl. Hwyrach nad ydyn nhw yn dinasoedd mawr Cymru, Caerdydd ag yn y blaen, ddim yn gweld hynny chwaith. Ond dwi'n ei weld o. Hefyd, y gwyn fawr geshi o'r blaen hefo'r Comisiwn, oedd yr enwau Saesneg oedden nhw eisiau rhoi ar y siroedd neu ar y cynghorau dosbarth neu ar y cyngor sir, fel y doth hi wedyn. Yn y cyswllt yma, 'da chi di bod yn, yn ddoeth iawn, felly, os dwi'n iawn, os dwi di darllen y llyfryn trwchus 'ma'n iawn, Clwyd ydy Sir Ddinbych yn mynd i fod, y yn ôl hwb. Ac mae hwnnw'n air da ni di dderbyn cynt yn yr hen ddyddiau pan oedd ganddo ni gynghorau dosbarth a cynghorau sir. Felly, dyna y ddatganiad, dweud y gwir. Dwi'm wedi cael cyfle i fynd drwy, o'n i'n methu cael hyd iddo do ar y we, wyddoch chi? Dwi'm yn yn ddyn wê, dyn llyfr ydw i ac hwyrach ar ôl darllen hwn, fydd gennai eisiau gyrru llythyr ichi eto, ynde? Diolch yn fawr ichi am eich amser, a bob dymuniad da.
- GD: Diolch yn fawr iawn. Ga' i jyst holi os oes gan unrhyw un gwestiynau ichi, naill ai yn y gynulleidfa, neu ar y panel? Unrhyw beth mae unrhyw un eisiau esboniad pellach ynglŷn â fo? Na, dwi ddim yn meddwl, felly diolch yn fawr iawn i chi'r Cynghorydd Davies.
- MD: iawn, iawn ynde. (chwerthin)
- GD: A jyst eisiau eich atgoffa chi bod modd iddi gyflwyno unrhyw lythyron pellach erbyn y dyddiad cau ar y degfed ar hugain o Fawrth.
- MD: O Fawrth, diolch yn fawr iawn, diolch yn fawr.
- GD: Diolch yn fawr iawn.
- SW: Na, mae'r siaradwr nesaf am bump o'r gloch, felly gallwn gymryd egwyl tan hynny.
- GD: Felly, mae'r siaradwr nesa yn mynd i ddod o'n blaenau ni am bump o'r gloch, felly, dwi'n bwriadu atal y sesiwn tan hynny, ac mae croeso ichi ddod yn ôl yma i ail ymgynnull am bump o'r gloch i glywed y siaradwr nesa'. Diolch yn fawr iawn ichi i gyd.



AC: Fy enw i yw Andrew Clemes ac rwy'n Gomisiynydd Cynorthwyol â'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Byddaf yn cadeirio rhan hon y gwrandawriad heddiw. Mae'r panel yn cynnwys fy nghyd Gomisiynydd Cynorthwyol, Dr Gwenllian Lansdown Davies, yn ogystal â Shereen Williams, Ysgrifennydd y Comisiwn.

[00:40:40]

Mae'r Comisiwn yn clywed gan bobl... sy'n cyflwyno cynrychiolaethau am unrhyw un o gynigion cychwynol y Comisiwn sy'n ymwneud â seddau Seneddol yng Nghymru, gan gynnwys enw unrhyw etholaeth, a chyflwyno unrhyw wrthgynigion. Cofiwch bod yn rhaid i unrhyw gynigion newydd, neu ddiwygiadau neu newidiadau a awgrymir i'r cynllun cychwynol, gydymffurfio â'r un gofynion a osodwyd ar gyfer y Comisiynwyr ac a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Mae'r gwrandawriad hwn yn un o bump sy'n cael eu cynnal yng Nghymru yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac mae'r oriau yn hyblyg er mwyn galluogi pawb sy'n dymuno cyflwyno cynrychiolaethau i wneud hynny. Bydd trawsgrifiad o'r cynrychiolaethau a wneir yn y gwrandawriadau hyn, ynghyd ag unrhyw rai a dderbynnir yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori, yn cael eu cyhoeddi ar wefan CFFG.

Rwy'n mynd i ofyn i'n siaradwr nesaf ddod at y ddarlithell i roi ei sylwadau. Gofynnaf iddo ddatgan yn glir ei enw, ei gyfeiriad, ei enw - mae'n ddrwg gennyf – ei ardal breswyl, nid ei gyfeiriad, ac unrhyw ymlyniad sydd ganddo, os yw hynny'n berthnasol. Bydd eich cynrychiolaeth yn cael ei chofnodi at ddibenion trawsgrifio, felly siaradwch yn araf ac yn glir fel y gellir deall a chofnodi eich cyflwyniad yn dda. Ni chewch eich croesholi, ond mae'n bosibl y gofynnir rhai cwestiynau er eglurder, drwof fi fel y Cadeirydd.

Diolch i chi.

JD: Diolch yn fawr iawn i chi. Mae gennyf rai sleidiau a fydd ar gael, gobeithio. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi am gynnal y gwrandawriad cyhoeddus hwn heddiw.

AC: Dylwn fod wedi dweud, Mr Davies, mae'n ddrwg gennyf, mae 10 munud...

JD: Ie.

AC: ...o derfyn, a byddwch yn cael rhybudd ar gyrraedd wyth munud.

JD: Iawn.


AC: Diolch i chi.

SW: A yw ei sleidiau gennych? A yw'r sleidiau ymlaen, a oes modd eu gweld?

P1: Nid oes gennyf unrhyw sleidiau.

SW: Nid ydych wedi...

P1: [anghlywadwy 00:42:30 – 00:42:35].



SW: Pan oeddem yn teithio, o bosibl. A gawn ni oedi'r ffrydio byw? Gallwn drefnu hyn, ac wedyn...

P1: Ie, bydd hynny [anghlywadwy 00:42:39].

AC: Diolch i chi.

[00:42:40]

[toriad yn y recordiad 00:42:43 – 00:42:53]

AC: Nawr mae gennych y sleidiau, a wnewch chi gyflwyno'ch hun eto, ar gyfer y cofnod?

JD: Wrth gwrs.

AC: Mae gennym gopiâu papur o'r sleidiau.


JD: Da iawn, diolch i chi. James Davies wyf i, AS Ceidwadol dros Ddyffryn Clwyd rhwng 2015 a 2017, ac wedyn o 2019 hyd at y presennol. Cyn hynny, roeddwn yn aelod o awdurdod lleol Sir Ddinbych a chyngor tref Prestatyn am 11 mlynedd.

Hoffwn ddiolch i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru am gynnal y gwrandawriad cyhoeddus hwn heddiw. Yn amlwg, mae gennych waith anodd i'w wneud ac rwy'n gwerthfawrogi hynny. Mae'n dipyn o dasg ddiolch, yn ôl pob tebyg, ond rwy'n cefnogi'r ymgyrch gyffredinol i ddiweddarau'r ffiniau gan ystyried y newidiadau demograffig, a gwneud etholaethau yn gyfartal o ran maint eu poblogaeth.

Mae sedd bresennol Dyffryn Clwyd, fel y gwyr pawb yn dda, yn y canol yn hyn o beth. Byddwn yn dweud bod ganddi gyfansoddiad cydlynol, mae ganddi 25 mlynedd o hanes, wrth gwrs, ac mae'n gyfan gwbl o fewn Sir Ddinbych. Llwyddodd i gadw dwy hen ardal awdurdod lleol bwysig gyda'i gilydd, a fu gyda'i gilydd yn aml yn y gorffennol. Ac, wrth gwrs, wrth fod yn rhan o'r un sir o ran gwasanaethau cyhoeddus, mae'n gweithio'n weddol effeithiol, ac mae ffordd yr A525 yn rhedeg o'r gogledd i'r de. Wrth gofio hynny, a'r ffaith na fyddai unrhyw gynrychiolydd yn dymuno gweld ei sedd yn cael ei thorri'n ddwy, fel y cynigir, pe bawn i'n cynnig dewis arall, heb ystyried yr effaith ar weddill Gogledd Cymru, byddwn yn edrych, o bosibl, ar ystyried sedd sir gyfan ar gyfer Sir Ddinbych, a fyddai'r maint cywir.

Neu fel arall, gellid edrych ar ymestyn i'r dwyrain i rannau o Sir y Fflint, mewn modd tebyg i'r cynnig gan y Ceidwadwyr yn 2016. Gallwch wneud hynny wrth ychwanegu wardiau gwledig a lled-wledig o Sir y Fflint, gan greu sedd weddol gytbwys.

Mae'r cynigion fel y maent ar hyn o bryd yn hollti Dyffryn Clwyd i lawr y canol yn fertigol, gan greu Clwyd a Delyn, ac mae rhai ardaloedd yn sedd bresennol Gorllewin Clwyd wedi'u gosod wrth waelod sedd Delyn. Hoffwn gyfeirio at rai o'r agweddau cadarnhaol yn hyn o beth. Mae'n wir i ddweud bod gan y Rhyl gysylltiadau â threfi arfordirol i'r gorllewin a byddent yn cael eu dwyn ynghyd. Hefyd, byddai Bodelwyddan ac Abergele, Dinbych a Llansannan, yn dod at ei gilydd, sy'n werth sôn amdano. Yn yr un modd, yn Nelyn, byddai Prestatyn yn ymuno â llawer o'r cymunedau cyfagos sydd bob amser wedi edrych i Brestatyn am eu gwasanaethau cyhoeddus ac ar gyfer siopa, maent yn rhannu'r un cod ardal ffôn, yr un cod post, ac yn y blaen. Ac mae'r ffyrdd yn





dddefnyddiol yn hynny o beth, o ran cysylltu'r cymunedau hynny. A hyd yn oed ymhellach i'r dwyrain, mae pentrefi o amgylch Treffynnon hefyd yn edrych i Brestatyn yn aml.

[00:46:13]

Ymhellach i'r de, mae hefyd yn wir i ddweud bod gan rai lleoedd yn Sir Ddinbych, fel Tremeirchion, Cwm, Waen, er enghraifft, gysylltiadau â'r Wyddgrug, ac yn sicr mae gan Landyrnog gysylltiad â Rhuthun.

Mae'r agweddau negyddol, wrth gwrs, fel rwyf wedi'u nodi eisoes, yn cynnwys chwalu'r cysylltiadau sy'n bodoli rhwng y rhannau o Sir Ddinbych sydd yn etholaeth bresennol Dyffryn Clwyd. A'r pwynt arall, rwy'n meddwl, yn benodol, yw y byddai gennych gyrchfannau glan môr, ardaloedd gwledig, ac ardaloedd eithaf diwydiannol yn cael eu gosod ynghyd, ac mae llawer o bobl wedi gwneud sylwadau negyddol am hyn.


Byddwn yn gofyn i'r Comisiwn ystyried a oes unrhyw rinwedd mewn ailgyflwyno'r ffin las a fu'n bodoli yn y gorffennol rhwng gorllewin y Fflint a dwyrain y Fflint, rhwng 1950 a 1983 yn ôl yr hyn a ddeallaf. Hynny yw, wrth ailgyflwyno'r ffin honno, rydych yn gwahanu'r ardaloedd gwledig a'r ardaloedd arfordirol oddi wrth yr ardaloedd mwy diwydiannol.

Mae hwn yn bwynt allweddol a byddwch wedi gweld gwrthgynigion y blaid Geidwadol sy'n ystyried hynny. Wrth ailgyflwyno'r ffin honno, byddai sedd Alun a Glannau Dyfrdwy yn ymestyn ymhellach i'r gogledd a'r gorllewin. I gydbwyso hynny, byddech yn ychwanegu wardiau Brychdwn Newydd, Argoed a Choed-llai, sydd yn etholaeth bresennol Delyn ac yr awgrymir eu gosod yn Alun a Glannau Dyfrdwy. Hefyd, gallech ychwanegu rhai ardaloedd yn ne Sir Ddinbych sydd â chysylltiadau cryf ag ardal Rhuthun.

O ran enwau, hoffwn nodi bod Delyn yn enw a gododd, rwy'n meddwl, yn y 1970au. Nid oes ganddo unrhyw gysylltiadau hanesyddol penodol. Ac mewn gwirionedd, os edrychwch ar Brestatyn, ie, bu'n rhan o etholaeth Delyn am gyfnod, ond ni fu erioed yn rhan o ardal Cyngor Bwrdeistref Delyn, ac yn sicr, ni fu Rhuthun ychwaith. Felly, nid wyf yn meddwl mai Delyn fyddai'r enw gorau ar gyfer yr ardal a gynigir, ac efallai y byddai Dwyrain Clwyd yn well. Wrth gwrs, wedyn, byddai angen i chi newid enw Clwyd i Orllewin Clwyd.

Byddwn yn awgrymu bod cryn dipyn o gefnogaeth i'r cynigion hyn, a gyflwynwyd yn ystod eich proses ymgynghori. Hefyd, rwyf wedi nodi gwrthwynebiad yn ardal Rhuthun yn erbyn cynnwys yr ardal yn etholaeth newydd arfaethedig Delyn, gan y cyngor tref ac o ffynonellau eraill. Mewn gwirionedd, wrth gwrs, pe baech yn ychwanegu mwy o ardaloedd gwledig de Sir Ddinbych at sedd Delyn, byddai hynny'n cydbwyo'r sefyllfa, ac rwy'n meddwl y byddai hynny'n gosod Rhuthun mewn cyddestun hapusach o ran yr ardaloedd cyfagos. Mae hynny'n rhywbeth y mae Llafur wedi gwneud sylwadau arno.

Codwyd mater y ffin las gan y Blaid Werdd a Phlaid Cymru fel rhywbeth sy'n werth ei archwilio. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd wedi awgrymu ychwanegu rhai ardaloedd yn ne Sir Ddinbych at etholaeth newydd Delyn.





Felly, rwy'n gobeithio y bydd hynny'n ddefnyddiol fel crynodeb byr o'm syniadau am y cynigion, a hoffwn ddiolch i chi eto am eich amser a'ch ymdrechion yn y broses.

AC: Diolch yn fawr iawn i chi. Mae angen i mi holi – a oes unrhyw gwestiynau er eglurder?

SW: Mae gennyf un.

JD: Iawn.

[00:49:58]

SW: Hoffwn ofyn, os na fydd y Comisiynwyr yn gwneud y newidiadau o ran trosglwyddo wardiau ac ati, beth yw eich safbwynt ar yr enw? Gan dybio bod popeth yn aros yr un fath, a ydych o'r farn y dylem hefyd newid... dylem newid yr enw, o leiaf?

JD: Ie, rwy'n meddwl, oherwydd nid yw Prestatyn, Dyserth, Rhuthun, erioed wedi bod yn ardal Cyngor Bwrdeistref Delyn. Ac fel y dywedais, mae Delyn yn lluniad cymharol fodern nad yw'n golygu fawr iawn i lawer o bobl.

SW: Er eglurder, nid wyf yn chwarae unrhyw ran yn y broses o wneud penderfyniadau, y Comisiynwyr sy'n gwneud hynny, ond rwyf eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn deall yn gwbl glir bod yr enw hefyd yn broblem, ni waeth beth sy'n digwydd â'r cyfuniad.

JD: Ydi, rwy'n credu, ond yn fwy fyth pe baech yn mabwysiadu'r newidiadau rwyf wedi'u hamlinellu.

SW: Diolch.

AC: Diolch yn fawr iawn i chi.

JD: Diolch i chi.

SW: Ni fydd ein siaradwr nesaf yn cyrraedd tan chwech o'r gloch. Yw hynny'n gywir?

?: Deng munud wedi.


SW: Deng munud wedi chwech. Felly, cawn egwyl tan hynny.

AC: Rydym yn disgwyl y siaradwr nesaf am ddeng munud wedi chwech, felly rwy'n cynnig y cawn egwyl tan hynny.

[Egwyl - 00:51:12 – 00:53:49]

AC: ...siaradwch yn araf ac yn glir fel y gallwn ddeall a recordio eich cyflwyniad. Diben y gwrandawriad yw clywed cynrychiolaethau am y cynigion cychwynnol a gyhoeddwyd y llynedd ar gyfer diwygio'r ffiniau Seneddol yng Nghymru. I fod yn glir, nid ni yw awduron y ddogfen hon, rydym yn cymryd safbwyntiau ynghylch a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r cynigion hynny.

Diolch. Dewch ymlaen, felly, os gwelwch yn dda.



PR: Iawn. Yn gyntaf, diolch i chi am y cyfle hwn i'ch annerch heddiw. Yn benodol, mae un neu ddau o faterion yn ymwneud â'r cynigion i osod adrannau Brymbo a Mwynglawdd yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. Teimlir yn gryf yn ardal Brymbo yn arbennig fod ganddynt fwy o gysylltiad â sir bresennol Wrecsam a thref Wrecsam, oherwydd cysylltiadau diwydiannol hanesyddol hirsefydlog â'r ardal honno. Felly, rwy'n meddwl bod barn gref iawn yn lleol, pe bai Brymbo a Mwynglawdd yn cael eu gosod yn etholaeth Sir y Fflint, neu Alun a Glannau Dyfrdwy, na fyddai mor fuddiol i'r cymunedau hynny oherwydd byddent yn teimlo'n eithaf pell oddi wrth weddill yr etholaeth.

[00:55:15]

Rwy'n meddwl y ceir dadl gref bod gan y cymunedau, cymuned Brymbo, seilwaith daearyddol cryf iawn a chysylltiadau trafndiaeth â wardiau cyfagos Bryn Cefn, Gwenfro a Brychdwn Newydd, ac yn yr un modd, â Choedpoeth.


Byddai gennych sefyllfa lle byddai sir bresennol Wrecsam yn cael ei chynrychioli gan dri AS, mewn modd anghymesur iawn. Ac fel cynghorydd sir, rwy'n credu y byddai'n eithaf heriol ceisio sicrhau y byddai tri Aelod Seneddol etholedig yn gallu cael eu hysbysu'n llawn am faterion, materion o ochr y fwrdeistref sirol. Felly, rwy'n meddwl y byddai'n creu heriau ymarferol ar yr ochr honno o bethau.

Rwy'n meddwl bod Sarah Atherton AS wedi cyflwyno cynrychiolaethau heddiw, a chredaf iddi ddweud, yn y bôn, pe bai Brymbo a Mwynglawdd yn aros yn etholaeth Wrecsam, byddai'n rhaid i rywbeth arall newid er mwyn lleihau nifer yr etholwyr. Oherwydd mae'n amlwg byddai ychwanegu Brymbo a Mwynglawdd yn mynd â'r nifer yn sylweddol uwch na'r meincnod.

Rwy'n meddwl, yn y bôn, y byddai'n gwneud synnwyr, y cynigion y mae wedi'u gwneud ynghylch y wardiau a grybwyllwyd, rwy'n meddwl mai Johnstown a Phonciau oedd y rheini, mae gan yr adrannau etholiadol hynny gysylltiad llawer cryfach â'r rhai yn y de, fel Rhiwabon, ac ardaloedd Llwynmawr, Plas Madoc, Acrefair, mae'r cymunedau hynny wedi'u cysylltu'n dda iawn, felly rwy'n meddwl y byddai hynny'n gwneud synnwyr.

Hefyd, un o'r materion sydd gennym yn ardal Brymbo ei hun ar hyn o bryd yw bod y ward yn profi adfywiad sylweddol yn dilyn cau safle gwaith dur 30 mlynedd yn ôl. Bydd gennych sefyllfa, os bydd Brymbo yn mynd i etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy, na fyddech yn gwybod ble y daw ffiniau Brychdyn i ben a ble mae ffiniau Brymbo, oherwydd maen nhw wedi ymdoddi i'w gilydd dros gyfnod o amser. Rwy'n meddwl y byddai'n ddryslyd iawn i aelodau'r cyhoedd wybod pwy yw eu cynrychiolydd etholedig, oherwydd mae ward Brymbo yn cynnwys pentrefi Tan-y-fron, Mwynglawdd a Bwlchgwyn hefyd. Felly, i'r pentrefi hynny, rwy'n meddwl y byddai elfen o ddryswch ynghylch pwy yw eu AS. Rwy'n meddwl y byddai'n gwneud synnwyr, fel rwy'n dweud, o safbwynt yr etholwyr, i fod yn glir a chael diffiniad clir ynghylch pwy yw'r Aelod Seneddol, a'u bod yn gwybod ble mae'r ffiniau.

Hefyd, mae etholaeth bresennol Alun a Glannau Dyfrdwy, lle mae'r ffin yn cwrdd â Brymbo, yn wledig iawn. Rydych chi'n mynd o ardal drefol iawn i ardal wledig. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn stopio ar y ffin â Brymbo ac nid yw'n rhedeg i'r etholaeth



arall. Felly, byddai problemau posibl o ran teithio o un rhan o etholaeth, er enghraifft, i fynychu cymhorthfa Aelod Seneddol, mae'n debygol y byddai'n rhaid i bobl wneud teithiau bws lluosog ar drafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad at hynny. Nid oes unrhyw gysylltiadau rheilffordd uniongyrchol nac unrhyw beth tebyg sy'n rhedeg trwy'r ardaloedd, a fyddai â chysylltiad cyffredin.

[00:59:00]

Felly, rwy'n meddwl, yn ddaearyddol, at ei gilydd, mae rhai heriau, pe rhoddir Brymbo yn yr etholaeth honno.

O ran Mwynglawdd, mae ward sirol Mwynglawdd wedi'i rhannu rhwng adrannau Mwynglawdd a Bwlchgwyn ar hyn o bryd. Mewn gwirionedd, maent o dan ddau gyngor cymuned ar wahân, felly daw Bwlchgwyn o dan Frymbo. Mae Mwynglawdd, ar y llaw arall, â chysylltiad cryf iawn, iawn â chymuned Coedpoeth. Eto, yn yr un modd, nid ydych chi'n gwybod ble mae un yn dechrau a'r llall yn gorffen. Felly, rwy'n meddwl y byddai rhai manteision amlwg, i Fwynglawdd yn ogystal â Brymbo, wrth aros yn yr un etholaeth.

Rwy'n meddwl, mewn gwirionedd, yn ôl aelodau'r gymuned, rwy'n meddwl eu bod wedi'u synnu gan y cynnig hwn. Rwy'n gwerthfawrogi bod rhai o'r etholaethau newydd hyn yn fawr iawn, ond yn sicr, er bod y diwydiant yn debyg, ychydig iawn o gysylltiadau sydd rhwng ardal Shotton a Glannau Dyfrdwy a, sut y dylwn i ddweud hyn, y diwydiannau a fu yno, mwyngloddio glo a chynhyrchu dur yn ardal Brymbo a Wrecsam. Felly, rwy'n meddwl bod hynny'n gwneud synnwyr.

Yn yr un modd, rwy'n meddwl bod unrhyw... gwnaed rhai awgrymiadau ynghylch wardiau Gwersyllt a Llai. Nid wyf yn credu y byddent yn arwain at gymunedau cydlynus wrth gael eu cynrychioli gan ddau Aelod Seneddol gwahanol pe baent yn cael eu gwahanu. Ac mae cadw hunaniaeth ddaearyddol Wrecsam, rwy'n meddwl, yn bwysig iawn. Rwy'n gwerthfawrogi, wrth gwrs, ein bod wedi'n rhannu rhwng dau Aelod Seneddol ar hyn o bryd. Pe byddem yn cael ein rhannu rhwng mwy na hynny, rwy'n meddwl y byddai'n achosi rhai problemau.

Felly, i gloi, mae pryderon gwirioneddol ynghlwm wrth gynnwys Brymbo a Mwynglawdd yn etholaeth newydd Alun a Glannau Dyfrdwy, a byddwn yn gofyn i'r Comisiwn Ffiniau edrych ar y cynigion sirol sydd wedi'u cyflwyno hyd yma, ac yn benodol, cadw Brymbo a Mwynglawdd yn etholaeth Wrecsam.


AC: Diolch i chi. Er eglurder, chi yw'r cynghorydd sir ar gyfer ward Brymbo, fel y nodir ar y rhestr.

PR: Ie, ie. Cynghorydd sir ar gyfer Brymbo a chadeirydd y cyngor cymuned.

AC: Diolch, ac a ydych chi'n siarad fel unigolyn neu fel cynghorydd?

PR: Fel cynghorydd.

AC: Cynghorydd, diolch. A oes unrhyw bwyntiau i'w hegluro sy'n deillio o anerchiad y Cynghorydd Rogers?



SW: Gyngorydd, hoffwn fod yn glir, ai'r gwrthgynnig gan Sarah Atherton AS oedd trosglwyddo wardiau Pant, Johnstown a De Ponciau i Faldwyn?

[01:01:46]

PR: Ie.

SW: Felly, er eglurder, un o'r pethau y mae'r Comisiwn yn ceisio'i osgoi yw rhannu cymunedau. Felly, pe byddem yn gosod De Ponciau ym Maldwyn, byddem yn rhannu cymuned Ponciau. Ar sail eich profiad fel cyngorydd, a oes problem pe bai Ponciau'n cael ei rhannu, neu a fyddai'n dderbyniol, neu a oes digon o gysylltiadau ar gyfer symud Gogledd Ponciau yn ogystal â De Ponciau i Faldwyn, pe bai'r Comisiynwyr yn penderfynu gwneud hynny?

PR: Rwy'n credu, nid wyf yn hollol sicr ynghylch hyn, ond mae pob un o'r wardiau yn dod o dan y Cyngor Cymuned Cymreig, felly mae ganddynt gysylltiad cryf iawn. Felly Johnstown, ward Pant, Ponciau, mae ganddynt gysylltiadau cryfach i raddau helaeth. Rwy'n credu bod rhai cymunedau gwledig i'r gogledd sy'n dod o dan Gyngor Cymuned [anghlywadwy 01:02:38]. Ond maen nhw i raddau helaeth iawn yn hunaniaethau ar wahân fel y mae pethau ar hyn o bryd.

SW: Diolch i chi.

AC: Diolch yn fawr iawn i chi, Gyngorydd Rogers.

PR: Iawn.

SW: Teithio i rywle? [chwerthin]

PR: Dwi newydd fod drwy'r orsaf [anghlywadwy 01:03:02] honno.

SW: Diolch i chi.

PR: Diolch yn fawr iawn.

AC: Diolch yn fawr iawn.

SW: Pob hwyl, diolch i chi. Bendith. Rwy'n teimlo'n well nawr, mae gennym [anghlywadwy 01:03:10] yn dychwelyd o Sbaen, ond mae rhywun yn dod o'r orsaf. Nid wyf yn meddwl bod gennym unrhyw siaradwyr i ddod.

AC: Na.

SW: Felly arhoswn, cawn egwyl ac arhoswn am unrhyw un arall.

AC: Nid oes unrhyw siaradwyr eraill wedi'u hamserlennu ar gyfer y diwrnod. Bydd y Comisiwn Ffiniau yn aros yn agored tan wyth o'r gloch rhag ofn y bydd unrhyw siaradwyr yn dod. Ond yn amodol ar hynny, ni fyddwn yn aros yn yr ystafell hon, byddwn ar gael yn y gwesty rhag ofn y bydd unrhyw siaradwyr yn ymddangos cyn yr amser cau. Diolch.



[Egwyl 01:03:49 – 01:13:18]

SP: Prynawn da. Steven Phillips yw fy enw i, rwy'n un o'r pedwar Comisiynydd Cynorthwyol sy'n gweithio ar arolwg 2023. Byddaf yn cyflwyno fy nghydweithwyr mewn eiliad.

[01:13:33]

Yn gyntaf, ar y chwith i mi, mae Shereen Williams, Prif Weithredwr y Comisiwn Ffiniau i Gymru ac ysgrifennydd yr arolwg. A'm cydweithwyr, y tri Chomisiynydd Cynorthwyol, yw Gwenllian Lansdown Davies ac Andrew Clemes ar y dde, ac ar y chwith, Arun Midha.

Fel cyflwyniad byr, rydym yma i gasglu tystiolaeth yn seiliedig ar y cynrychiolaethau ysgrifenedig rydym wedi'u derbyn hyd yn hyn mewn ymateb i'r cynigion cychwynnol. Rydym yma i wrando a chasglu tystiolaeth, oherwydd maes o law mae'n rhaid i ni adrodd i'r Comisiynwyr, eu cynghori, ac argymhell newidiadau, os yw hynny'n briodol, i'r cynigion cychwynnol. Nid ydym yma i drafod rhinweddau, neu fel arall, y cynigion cychwynnol. Felly, nid oes gennym ni'n hunain unrhyw fewnbwn, y pedwar ohonom, i'r cynigion cychwynnol, ac rydym yn annibynnol yn hynny o beth. Dyna yw ein rôl yn y broses.


Dyma'r ail o bum gwrandawriad cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r ail gyfnod ymgynghori wedi agor bellach, agorodd ar 17eg o'r mis hwn a bydd yn cau ar 30 Mawrth i gyd-fynd â'r gwrandawriad terfynol yn Aberystwyth, ac mae'r siaradwyr y prynawn yma yn rhydd i gyflwyno cynrychiolaethau ysgrifenedig atodol os ydynt yn dymuno. Bydd pob cynrychiolaeth yn cael ei thrin yn gyfartal yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae gennym ddarlithell, fel y gwelwch, draw acw. Mae nifer o siaradwyr y prynawn yma, felly byddwn yn gofyn i chi fynd at y ddarlithell, rhoi'ch enw, eich ardal breswyl, a nodi p'un a ydych chi'n siarad yn bersonol neu'n cynrychioli sefydliad. A fydddech cystal â chadw at y 10 munud a neilltuir, oherwydd mae gennym nifer o siaradwyr ar ein rhestr y prynawn yma. Cewch ddau funud o rybudd gan fy nghydweithiwr ar y chwith.

Heb unrhyw oedi pellach, cynigïaf droi at y rhestr o siaradwyr a gwahodd David Jones AS i ddod i siarad.

DJ: Diolch i chi, syr, a diolch i chi am roi'r cyfle i mi eich annerch heddiw. Fy enw yw David Jones, fi yw'r Aelod Seneddol dros etholaeth Gorllewin Clwyd ac rwyf wedi cynrychioli'r etholaeth honno ers mis Mai 2005. Rwy'n gwneud y cyflwyniad hwn fel unigolyn, ond â chefnogaeth lawn Cymdeithas Ceidwadwyr Gorllewin Clwyd .

Hoffwn wrthwynebu cynigion cychwynnol y Comisiwn mewn perthynas ag etholaethau Seneddol newydd arfaethedig Clwyd ac Aberconwy. Byddwn yn gofyn i'r Comisiwn ystyried fy nghynrychiolaethau, sy'n seiliedig ar fy ngwybodaeth bersonol hirsefydlog a manwl am ardal fy etholaeth bresennol, a gobeithiaf y bydd y Comisiwn yn adolygu ei gynigion yn unol â hynny.



Fy mhrif wrthwynebiad, yn wir, fy unig wrthwynebiad, yw'r cynnig i gynnwys ward cyngor sir Llandrillo-yn-Rhos, y byddaf yn cyfeirio ati fel Rhos am weddill y cyfarfod hwn, yn etholaeth newydd Aberconwy, yn hytrach nag yn etholaeth newydd Clwyd.

[01:17:23]

Mae ward Rhos yn rhan annatod o dref Bae Colwyn, a chynigir cynnwys gweddill y dref yn etholaeth newydd Clwyd. Mae gan ward Rhos wyth cynghorydd ar Gyngor Tref Bae Colwyn, sydd â chyfanswm o 24 cynghorydd. Mae ward y cyngor sir, at ddibenion y cyngor tref, wedi'i rhannu'n ddwy ward, a gelwir un o'r rhain, braidd yn ddryslyd, yn Rhos hefyd, ac mae ganddi bum sedd, a'r llall yw Dinas, sydd â thair sedd.

Pe bai'r cynigion cychwynnol yn cael eu mabwysiadu, y canlyniad fyddai rhannu cynrychiolaeth Cyngor Tref Bae Colwyn yn San Steffan, gyda mwyafrif ardal y cyngor yn etholaeth Clwyd, ond â Rhos, sy'n cynnwys traean aelodaeth y cyngor tref, yn ffurfio rhan o Aberconwy. A byddwn yn datgan yn barchus y byddai hon yn sefyllfa annymunol, annerbyniol ac afresymegol. Ac yn wir, rwy'n ymwybodol y bydd Cyngor Tref Bae Colwyn yn gwneud ei wrthwynebiad ei hun i'r cynnig, a fydd i bob pwrpas ar yr un seiliau â'm gwrthwynebiad fy hun.


Rwyf wedi nodi y gall y Comisiwn, wrth benderfynu ar gyfansoddiad etholaethau newydd, ystyried unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan newidiadau mewn etholaethau. Yn bwysig iawn, gwelaf hefyd o'r nodiadau ar gyfer y cynigion cychwynnol fod y Comisiwn o'r farn bod ffiniau cymunedol presennol yn debygol o fod wedi'u creu gan gydnabod cysylltiadau lleol o'r fath, ac felly'n debygol o'u hadlewyrchu. Mae'r ddau bwynt hyn yn bwysig yn achos Cyngor Tref Bae Colwyn.

Pe na bai Rhos wedi'i chynnwys yn etholaeth newydd Clwyd, byddai'r cysylltiadau lleol rhwng y ward honno a wardiau eraill y cyngor tref yn cael eu torri, a byddai cyfanrwydd ardal y cyngor tref yn cael ei ddinistrio. Rwy'n credu y byddai hynny'n annerbyniol i bobl Bae Colwyn gyfan, gan gynnwys, wrth gwrs, Rhos ei hun.

Mae ardal Cyngor Tref Bae Colwyn yn adlewyrchu un gytref barhaus sy'n ymestyn o Benmaen-rhos yn y dwyrain i Ros yn y gorllewin. Nant Afon Ganol yw ffin orllewinol y gytref honno, sy'n cynnwys ward Rhos, ac os ydych yn gyfarwydd â'r ardal, dyna'r nant sy'n rhedeg trwy gwrs golff Llandrillo-yn-Rhos.

Mae Afon Ganol hefyd yn ffin rhwng siroedd hanesyddol Dinbych a Chaernarfon a siroedd seremonïol presennol Clwyd a Gwynedd. Mae Rhos yng Nghlwyd. Yn fy marn i, ni ddylid anwybyddu'r arwyddocâd hanesyddol hwnnw gan ei fod yn adlewyrchu ac yn amlgu'r cysylltiadau lleol hirsefydlog a'r ymdeimlad o gymuned sy'n bodoli yn yr ardal. Mae Rhos yn rhan annatod o gytref Bae Colwyn yn ddaearyddol, yn wleidyddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol, a chynigiad y dylai gael ei chynrychioli yn y Senedd mewn modd sy'n adlewyrchu'r statws hwnnw.

Mae Rhos wedi'i gwahanu oddi wrth Fae Penrhyn – a chredaf y bwriedir cynnwys y pentref hwnnw yn briodol yn etholaeth newydd Aberconwy – gan Afon Ganol, gan letem las agored ac annatblygedig caeau fferm Dinerth, a gan ran o'r cwrs golff. Felly, ceir ffin amlwg, weladwy a gwirioneddol rhwng cytref Bae Colwyn a'r hyn y gellir ei ddisgrifio fel cytref Llandudno, y mae Bae Penrhyn yn amlwg yn rhan ohoni.



[01:21:15]

Nid oes unrhyw ffiniau mewnol o fewn ffiniau tref Bae Colwyn ei hun. Mae Rhos a ward gyfagos Rhiw yn ymdoddi'n ddi-dor i un ardal adeiledig barhaus. Yn wir, mae strydoedd adeiledig hirsefydlog Frances Avenue, Kenelm Road a Phromenâd Cayley yn rhannol yn ward Rhos ac yn rhannol yn Rhiw, ac mae'r cyfan yn rhan o dref Bae Colwyn. Byddwn yn cynnig y byddai'n annerbyniol i gyfanrwydd y dref gael ei ddinistrio yn y modd a gynigir.

Caiff cysylltiadau diwylliannol lleol a'r ffaith bod Rhos yn wir yn rhan annatod o dref Bae Colwyn eu cadarnhau ymhellach gan nifer o sefydliadau Bae Colwyn sydd wedi'u lleoli yn ward Rhos. Mae'r rhain yn cynnwys, ymhlith eraill, Clwb Criced Bae Colwyn, Clwb Rygbi Bae Colwyn, a Chlwb Hwyllo Bae Colwyn. Ac ar ben hynny, mae Clwb Rotari Bae Colwyn yn cynnal ei gyfarfodydd yn y Rhos Fynach yn Rhos, ac mae Cynghair Cyfeillion Ysbyty Bae Colwyn yn cyfarfod yng Nghanolfan Gymunedol Parkway yn Rhos. Mae cangen Bae Colwyn Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub yn cyfarfod yng Nghlwb Rygbi Bae Colwyn sydd, fel y dywedais, yn Rhos, neu'n cyfarfod yng Nghlwb Criced Bae Colwyn, sydd hefyd yn Rhos.

Mae llawer o blant oed ysgol gynradd sy'n byw yn Rhos yn mynychu ysgol Pen Y Bryn yn ward Rhiw. Mae bron pob un o'r plant oed ysgol uwchradd o Ros yn mynychu naill ai Ysgol Eirias neu Ysgol Bryn Elian, sydd ill dwy wedi'u lleoli ym Mae Colwyn.

Nid oes unrhyw feddygfeydd meddygon teulu yn Rhos, ac mae'r rhan fwyaf o'r trigolion lleol yn mynychu meddygfeydd mewn wardiau eraill ym Mae Colwyn; mae meddygfeydd Rhoslan a Rysseldene yn ward Rhiw ymhlith y rhai mwyaf poblogaidd.

Ceir llawer o enghreifftiau tebyg eraill sy'n dangos yn glir bod Rhos yn rhan gwbl annatod o dref Bae Colwyn, a byddwn yn dadlau bod gan y gymuned honno'r cysylltiadau lleol cryfaf posibl â Bae Colwyn. Credaf y byddai'n wrthnysig i dorri'r cysylltiadau hynny wrth wthio Rhos i mewn i ardal etholaeth newydd Aberconwy, y mae ganddi lai o gysylltiadau a chysylltiadau llawer gwannach â hi, boed yn wleidyddol, yn gymdeithasol neu'n ddiwylliannol. Yn ei hanfod, mae Rhos yn edrych tua'r dwyrain i Fae Colwyn fel canolfan, ac nid tua'r gorllewin i Landudno.


Rwy'n haeru y byddai'r effaith a ystyrir ar gyfanrwydd Bae Colwyn ac ardal Cyngor Tref Bae Colwyn yn annerbyniol, ac anogaf y Comisiwn i adolygu ei gynigion cychwynnol, er mwyn sicrhau na chaiff y cyfanrwydd hwnnw ei beryglu.

Rwyf wedi cyflwyno rhai cynigion amgen i'w hystyried, sydd â phrawf y dystiolaeth a gyflwynwyd gennyf i'ch clerc. Nid wyf yn bwriadu mynd i fanylion yn eu cylch. Os oes gennyh unrhyw ymholiadau, syr, byddaf yn hapus iawn i geisio eu hateb.

SP:

Ie, diolch yn fawr iawn i chi. Dylwn fod wedi dweud ar y cychwyn bod y llawr yn agored, i ni ein hunain ofyn am egluro rhai pwyntiau ac i unrhyw aelodau o'r gynulleidfa. Af at y gynulleidfa yn gyntaf. Mae gennyf un sylw, a oes unrhyw un sy'n dymuno ymyrryd? Na, ni welaf unrhyw un.

[01:24:26]



A gaf i ofyn un cwestiwn? Rwy'n meddwl eich bod yn glir iawn ar y rhaniad rhwng Rhos a Phenrhyn. A gaf i ofyn am wardiau cyfagos eraill, a Mochdre yn benodol, a ydych yn gweld yn gweld y rhain fel rhan ddilys o etholaeth arfaethedig Aberconwy?

DJ: Mae Mochdre wedi'i gwahanu'n ffishogol oddi wrth y gytref y soniais amdani, a chredaf mai dyma'r ffactor pwysig, y ffactor allweddol mewn gwirionedd, yn fy nghyflwyniad. Wn i ddim a ydych chi'n adnabod yr ardal, syr, ond...

SP: Ddim yn dda.

DJ: Os ewch chi yno, wn i ddim a fyddwch chi'n mynd yno, ond byddwch yn gweld, mewn gwirionedd, bod Rhos yn estyniad o Fae Colwyn. Mae'n rhan o'r un ardal adeiledig ac, fel y soniais, mae tair stryd yn Llandrillo-yn-Rhos sydd, mewn gwirionedd, wedi'u rhannu rhwng ward Rhiw a ward Rhos. Mewn geiriau eraill, nid ydych yn gwybod pryd ydych yn Rhiw, neu yn Rhos. Rwy'n meddwl mai dyna'r gwahaniaeth. Mae Mochdre ar wahân, nid yw'n rhan o'r un gytref.

SP: Mae hynny o gymorth. A oes gan fy nghydweithwyr...? Os na, hoffwn ddiolch i chi.

DJ: Diolch i chi, syr.

SP: Ie, syr.

CH: Mae'n ddrwg gennyf, dim ond un cwestiwn, os caf.

SP: Ie, iawn. A wnewch chi ddweud pwy ydych chi a phwy ydych chi'n ei gynrychioli?

CH: Iawn. Chris Hall, rwyf wedi dod yma o'r Blaid Lafur mewn ffordd, ond hefyd ar fy rhan fy hun, ac roeddwn yn meddwl beth yw maint y boblogaeth dan sylw a fydd yn cael ei effeithio? Felly, Llandudno a Rhos, roeddwn yn meddwl tybed beth yw'r boblogaeth a pha mor arwyddocaol yw hynny o ran etholaeth?

DJ: Mae maint y boblogaeth, yn ôl... roedd y boblogaeth, yn ôl cyfrifiad 2011, nid oes gennyf ffigurau cyfrifiad 2021 ar hyn o bryd, ond yng nghyfrifiad 2011, roedd poblogaeth o ychydig dros 7,500. Mae hynny allan o boblogaeth, rwy'n meddwl, o tua 34,500 ar gyfer tref Bae Colwyn gyfan. Mewn geiriau eraill, tua ychydig dros 22% o boblogaeth Bae Colwyn.

CH: Diolch.


SP: Ac rwy'n credu bod 6,110 o etholwyr yn ward Rhos.

CH: Rydych chi ar y blaen i mi â hyn.

SP: Mae fy nghydweithiwr ar y blaen i mi hefyd [chwerthin]. Diolch yn fawr iawn i chi. Rwy'n meddwl mai Mr Ian Harrison yw ein siaradwr nesaf.

[01:27:11]

IH: Diolch i chi, syr. Gomisiynwyr, fy enw yw Ian Harrison, rwy'n gadeirydd cyngor cymuned pentref bach yng ngogledd Sir Drefaldwyn o'r enw Cegidfa. Rwyf yma fel





preswlydd ac rwy'n eich annerch fel unigolyn. Nid wyf yma i gynrychioli fy nghyngor cymuned.

Ni allaf gredu y bu mwy na phum mlynedd ers i mi sefyll ger eich bron ddiwethaf, â'm cyd-aelodau o Sir Drefaldwyn, i ddadlau yn erbyn dinistrio ein hetholaeth hanesyddol bwysig yn Sir Drefaldwyn. Yn y gwrandawriad hwnnw ym mis Tachwedd 2016, cyflwynais ateb amgen i'ch cynigion ar gyfer ffiniau, a oedd yn cadw ein ffin bresennol. Felly, roeddwn mor falch i ddarllen eich cynnig presennol sy'n cadw ffin bresennol Sir Drefaldwyn a'i hategu â chymunedau ar hyd Dyffrynnoedd Llangollen a Cheiriog. Cymeradwyaf eich cynnig yn llawn o ran y ffin, fel y'i nodir yn eich argymhelliad. Fodd bynnag, byddwn yn erfyn arnoch i ailystyried enw'r etholaeth estynedig hon. Yn hytrach na'r enw Maldwyn a Glyndŵr, byddwn yn gofyn i chi ystyried Maldwyn a'r Dyffrynnoedd, sydd yn fy marn i'n adlewyrchu'n well y lleoliadau a'r diwylliannau yng nghymunedau'r Berwyn a gaiff eu heffeithio gan y newid.

Diolch i chi, syr.

SP: Diolch yn fawr iawn i chi. Unrhyw gwestiynau o'r llawr? Neu gan fy nghydweithwyr? Na.

SW: A wnewch chi ailadrodd yr enw? A wnewch chi ailadrodd yr enw eto?

IH: Pa enw?

SW: Maldwyn a'r Dyffrynnoedd.

IH: A'r Dyffrynnoedd, ie.

SP: Os na, diolch yn fawr iawn i chi.

IH: Diolch.


SW: Robert Harvey, syr.

SP: Iawn. Y siaradwr nesaf yw Mr Robert Harvey.

RH: Diolch yn fawr iawn i chi. Fy nghymhwyster yw y bues i'n AS dros Dde Orllewin Clwyd amser maith yn ôl, rwy'n adnabod yr ardal yn eithaf da ac rwyf wedi bod yn weithgar mewn gwleidyddiaeth yn Sir Drefaldwyn, felly rwy'n gyfarwydd â'r ardal honno hefyd, yn wir yr ardal gyfan a gwmpesir gan y cynnig hwn.

[01:30:03]

Byddwn yn dweud ei bod yn braf iawn sylweddoli bod swyddogion wedi gwrandao. Y tro diwethaf i ni ystyried y pethau hyn, roedd cynigion a oedd yn annerbyniol yn fy marn i, a chyflwynodd nifer ohonom ein gwrthwynebiadau. Cyflwynodd Ian Harrison, sydd newydd siarad, gynllun manwl iawn, ac rwy'n meddwl y cafodd ei ystyried. Rydym wrth ein bodd eich bod wedi gwrandao. Hoffwn longyfarch y Comisiynwyr ar hynny ac rwy'n cymeradwyo'r cynigion hyn yn fawr iawn. I grynhoi yn gyflym iawn, mae gennym ffiniau naturiol ar gyfer y sedd newydd. Yn y dwyrain, mae gennym y ffin â Lloegr; yn y de, mae ucheldiroedd deheuol Brycheiniog; yn y gorllewin pell, mae



Mynyddoedd Cambria; ac yn y gogledd, lle mae'r prif newidiadau, mae Mynyddoedd y Berwyn a Dyffryn Llangollen a Chorwen a'r Bala, yn ogystal â Dyffryn Ceiriog. Roedd pob un o'r manau hyn yn fy etholaeth, ac maen nhw'n lleoedd hardd a hanesyddol dros ben.

Rwy'n meddwl bod y strwythur newydd yn ystyried hanes aruthrol yr ardal sydd wrth wraidd yr etholaeth, sef Mathrafal, a fu'n gartref, neu'n balas haf, i Dywysogion Powys, a lle gorchfygodd y Brenin John, neu bu dan warchae beth bynnag, gan Llywelyn, ond dihangodd yn y pen draw. Bu cyflafan hanesyddol yng Nglyn Ceiriog, ac mae pawb yn gwybod am Owain Glyndŵr a'r Dyffryn sy'n ymestyn dros ardal Corwen a Llangollen.

Yn ogystal â hynny, mae'r cynnig newydd yn dilyn dyffrynnoedd afonydd naturiol, megis Afon Hafren fawr yn Nyffryn Efyrynwy, ac mae hynny i'w weld yn gwbl synhwyrol o gymharu â'r hyn a gynigiwyd yn flaenorol.

Mae cysylltiadau ar draws Mynyddoedd y Berwyn yn anodd, ac rwy'n eu hadnabod yn dda iawn oherwydd byddaf yn gyrru drostynt weithiau. Maen nhw'n anodd iawn oherwydd rhaid mynd drwy fylchau yn y mynyddoedd, ond fel y gwyddwn, os dewch i lawr ffordd yr A5, mae gennych fynediad cyflym iawn o ran arall yr etholaeth, sef Dyffryn Hafren yn Sir Drefaldwyn i Lyn Ceiriog ac i Ddyffryn Llangollen.

Felly, nid yw'n anhawster enfawr, a byddwn yn ategu pwynt lan y byddai'n braf rhoi'r enw Maldwyn a'r Dyffrynnoedd, oherwydd y ddau ddyffryn hanesyddol hyn, sef Glyn Ceiriog a Dyffryn Llangollen. Rwy'n meddwl y byddai'n braf, mewn ffordd, i addasu'r enw ychydig.


Bydd yn etholaeth fawr iawn, ac rwyf wedi arfer â hynny yn y gorffennol. Ond bydd yn brydferth iawn, yn hanesyddol iawn, a byddwn yn tanlinellu mai Sir Drefaldwyn, hyd y gwyddom, yw'r etholaeth fwyaf hirhoedlog sy'n seiliedig ar sir ym Mhrydain gyfan. Felly, mae'n hanesyddol iawn eich bod wedi dewis ceisio cadw hynny, ac nid oes gennyf unrhyw amheuan o gwbl dros argymell yr ateb a gynigiwyd gan y Comisiwn Ffiniau.

Diolch i chi.

SP: Diolch i chi. Hoffwn gael eglurhad ar un pwynt, ond af at y gynulleidfa yn gyntaf ac at fy nghydweithwyr. Na? Rwy'n meddwl, mae'n deg dweud, ein bod wedi cael dros 1,200 o ymatebion i'r cynigion cychwynnol. Rwy'n meddwl ei bod yn deg dweud bod cymunedau yng ngogledd yr etholaeth arfaethedig nad ydynt yn rhannu eich brwdfrydedd dros y ffiniau hyn. Rwy'n sôn am ardaloedd fel Corwen, Llangollen, Rhiwabon, Y Waun, ac ati, a fyddai, rwy'n meddwl... Rwy'n cyffredinoli ychydig, ond byddai'n well ganddynt fod yn gysylltiedig â Wrecsam neu ardal Clwyd. Beth, o ran y sir hanesyddol, ac rwy'n gweld y ddadl, ond a allech ymhelaethu ychydig ar sut y gwelwch y cymunedau hynny'n cydweddu â'r etholaeth arfaethedig?

[01:35:11]

RH: Wel, mae pawb ohonom yn cydnabod y broblem sy'n wynebu'r Comisiynwyr, sef y bydd yn rhaid i rai cymunedau gael eu taflu at ei gilydd yn fympwyol, nid oherwydd hanes, ond er mwyn cael y niferoedd i'r lefelau cywir.



Fues i'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r cymunedau hynny ac rwy'n cydnabod yn sicr eu bod yn edrych at Wrecsam fel eu canolfan, mewn gwirionedd. Rwy'n meddwl bod gan Langollen a Chorwen lawer mwy o hunaniaeth fewnol Gymreig. Ond rwy'n meddwl bod Rhos yn Gymreig iawn, ond mae'n edrych at Wrecsam, ac rwy'n meddwl bod Llangollen a Chorwen yn edrych rhywfaint i'r gorllewin.

Rwy'n deall y teimladau hynny, ond nid wyf yn gweld unrhyw ffordd y gallai'r Comisiynwyr lunio'r ffiniau yn y fath fodd ag i greu endid digon mawr, â Sir Drefaldwyn a'r adrannau gogleddol, mewn unrhyw ffordd arall. Rwy'n gwybod bod hyn wedi'i drafod yn helaeth iawn ac rwyf wir yn cydymdeimlo â'r Comisiynwyr sy'n gorfod ymdrin â hynny.

SP: Diolch yn fawr iawn i chi am hyn. A oes unrhyw gwestiynau neu sylwadau eraill? Nac oes. Iawn, diolch yn fawr i chi, Mr Harvey.

RH: Diolch yn fawr iawn i chi, diolch.

SW: [anghlywadwy 01:36:51].

SP: Rwy'n newid y drefn ychydig y prynhawn yma gan fod rhai siaradwyr yn dod yn hwyrach. Rwy'n meddwl mai'r siaradwr nesaf ar y rhestr yw Mr Glyn Davies.

GD: Mae hyn yn dipyn o syndod i mi, oherwydd rwyf newydd ddod i mewn ac roeddwn yn bwriadu mynd drwy'r hyn roeddwn eisiau ei ddweud, [chwerthin], cyn siarad â chi. Roeddwn i wedi gwneud un neu ddau o nodiadau, nad wyf wedi mynd drwyddynt, felly esgusodwch fi os wyf ychydig yn ddi-drefn, ond mae'r neges sydd gennyf yn glir iawn, mewn gwirionedd.


Hoffwn ddechrau gan ddiolch i chi am y cyfle i ddod i siarad â chi am fater sy'n bwysig dros ben i mi yn bersonol, ac yn rhinwedd fy swydd fel cadeirydd y Ceidwadwyr Cymreig. Mae'r ddau safbwynt hyn yn bwysig iawn i mi, a'r safbwynt personol sydd bwysicaf, yn ôl pob tebyg.

Rwyf eisiau siarad o'r ddau safbwynt gwahanol hyn, ac yn gyntaf fel cadeirydd y Ceidwadwyr Cymreig. Treulio mawr o amser yn penderfynu ar ein hymateb i'ch cynigion cychwynnol, ac ar ôl llawer o ystyriaeth, gan gydnabod... yn enwedig yng Ngogledd Orllewin Cymru, rwy'n meddwl y bu dadlau ac nid oeddem yn hapus â'r sefyllfa. Nid wyf yn meddwl y byddai llawer o bobl yn hapus â hynny, ond daethom i'r casgliad nad oedd gan y Comisiynwyr unrhyw ddewis arall, mewn gwirionedd, a'n barn ni oedd eu bod wedi gwneud y dewis gorau posibl mewn amgylchiadau anodd iawn.

[01:38:43]

Yr ymateb a gawsom, fel y blaidd wirfoddol, oedd ein bod yn cefnogi cynigion y Comisiwn, a hynny ledled Cymru. Hynny yw, dyna yw ein safbwynt sylfaenol.

Wrth siarad o'r ail safbwynt sydd gennyf, ac mae'n debygol mai dyma fy mhrif reswm dros ddod i siarad â chi heddiw, sef o'm safbwynt personol. Mae hyn yn bwysig iawn i mi yn bersonol. Cefais fy ngeni yn Sir Drefaldwyn, ac yn wir, Sir Drefaldwyn fu fy



ffocws erioed. Cefais fy ngeni yno, nid oes gennyf unrhyw hynafiaid a gafodd eu geni yn unman arall. Rwyf wedi cynrychioli'r sir mewn amrywiaeth o sefydliadau, roeddwn yn gadeirydd y cyngor lleol ac wedyn cynrychiolais etholaeth Sir Drefaldwyn fel Aelod Seneddol am ddwy sesiwn, hyd nes i mi ymddeol yn 2019. Roeddwn yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, neu Gynulliad Cymru, fel yr oedd bryd hynny, am ddwy sesiwn, wyddoch chi, rwy'n...

Ond cofiaf yn benodol fy nghyfnod fel Cadeirydd Cyngor Sir Drefaldwyn, a siarad ag awdurdodau eraill ledled Cymru, roedd hon yn etholaeth unedig a chadarn yng nghanol Cymru. Mae'r ffaith bod yn rhaid iddi newid yn rhywbeth nad oeddwn yn hapus yn ei gylch... ond rwy'n cydnabod yn llwyr nad oes gan y Comisiynwyr ddewis, oherwydd y ddeddfwriaeth. Yn enwedig y cyfyngiad o 5% o amrywiad sydd, yn fy marn i, yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r hyn y gall y Comisiynwyr ei argymhell. Ac, wrth gwrs, y gostyngiad o 40 i 32 etholaeth yng Nghymru – unwaith eto, rwy'n meddwl na all unrhyw un ddadlau ynghylch tegwch hyn.


Felly, ar un ystyr, rydych yn wynebu un neu ddau o bethau nad ydych chi'n eu hoffi, ond wedi dweud hynny, fy marn i yw bod y Comisiynwyr wedi gwneud y dewis gorau posibl. Mae'n rhaid i chi ystyried bod Sir Drefaldwyn tua 20,000 o bobl yn brin o fod yn etholaeth y gallech ddadlau'n llwyr o'i phlaid.

Felly, y dewisiadau i mi, ac yn wir i bobl eraill sydd yma... a allai fod o'r un farn o ran cydnabod Sir Drefaldwyn fel etholaeth bwysig iawn ynddi'i hun, yw bod yn rhaid i ni ystyried estyniad. Mae'n rhaid iddi fynd naill ai i'r gogledd neu'r de, neu gael ei rhannu, neu mae'n rhaid i rywbeth ddigwydd. Rwy'n derbyn yn llwyr... yn wir, pleidleisiais o blaid y ddeddfwriaeth pan oeddwn yn Aelod Seneddol, felly gallaf weld... er i mi geisio darbwyllo Aelodau Seneddol i dderbyn tua 7% o amrywiad, ni wnaethant hynny. Pasiwyd cyfraith y dylai fod amrywiad o 5%, ac o gofio'r cyfyngiad hwnnw, mae'n fy arwain i ddweud, beth yw'r opsiwn gorau sydd gennym?

Mae dau... mewn gwirionedd, mae mwy na dau, ond mae dau opsiwn eithaf amlwg. Un yw y gallem gymryd yr etholaeth, rhannu'r etholaeth, gan symud rhywfaint ohoni i'r de. Mae'n rhaid i mi ddweud fy mod yn meddwl mai dyna fyddai'r gwaethaf o bob byd. O ran mwyafrif yr etholaeth, mae tua 50,000 o bobl yn byw yn Sir Drefaldwyn ar hyn o bryd, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn byw yn Nyffryn Hafren, sef Llanidloes. Y Drenewydd yw'r dref fwyaf, y Trallwng yw'r dref ail fwyaf. Ac yn gynyddol, mae'r pentrefi ar y ffin â Lloegr, rwy'n meddwl, yn ganolfan boblogaeth fawr, bellach. Byddai rhannu Dyffryn Hafren, yn fy marn i, yn bechod llwyr. Nid oes unrhyw reswm da o gwbl dros wneud hynny.

[01:42:34]

Felly'r dewis arall yw edrych tua'r gogledd. Pe byddech chi'n mynd tua'r de, mae cadwyn o fynyddoedd, sef Bryniau'r Golfa, sy'n ei gwneud yn anodd i wasanaethau cyhoeddus gael eu darparu ledled Powys. Nid wyf yn meddwl bod angen i ni greu'r un sefyllfa o ran etholaeth, a ffiniau'r etholaeth yn y dyfodol. Rwyf o'r farn ei bod yn llawer gwell os awn i'r gogledd, rwy'n deall yn iawn mai rhan o'r ffin i'r gogledd, mae gennych y Berwyn, Mynyddoedd y Berwyn, cadwyn y Berwyn, mae hynny'n ddi-os yn ystyriaeth. Ond mewn gwirionedd, mynd tua'r gogledd... i fyny ffordd yr A483. Mae Croesoswallt yn Lloegr, ond rhaid dweud fy mod yn meddwl am Groesoswallt fel tref Gymreig. Rwy'n gweld Croesoswallt fel tref yn Sir Drefaldwyn mewn gwirionedd. O



bosibl oherwydd fy nghefnidir fel ffermwr, bob dydd Mercher byddwn yng Nghroesoswallt, a phrif iaith Croesoswallt ar ddydd Mercher yw'r Gymraeg.

Felly, rwy'n meddwl bod y ffordd honno i'r gogledd, yr A483 i Gaer, yn estyniad naturiol iawn. Rwy'n meddwl bod llawer ohonom yn gweld Llangollen ac yn gweld y rhan o'r gogledd, yn gweld De Clwyd yn dod i mewn i'r etholaeth arfaethedig, rwy'n meddwl bod hyn yn ddilyniant naturiol. Rwy'n meddwl y byddai hynny'n gweithio'n eithaf da. Byddai'n gweithio o ran traddodiad, byddai pobl yn teimlo eu bod yn ei hanfod yn rhan ohoni. Ac rwy'n meddwl bod hynny'n bwysig o ran llywodraeth, y ffordd rydych yn teimlo am eich etholaeth. Wrth edrych tua'r de, rwy'n meddwl yn y pen draw y byddai hynny'n ysgaru'r bobl oddi wrth eu gwleidyddiaeth, oddi wrth eu cynrychiolydd, ac i mi byddai hynny'n drasiedi.

Nawr, gallwch chi – unwaith eto, yr hyn rwy'n ei wneud yw dod i siarad â chi a dweud wrthyhch fy mod yn meddwl bod y Comisiwn wedi penderfynu'n gywir. Rwy'n meddwl bod y cynigion yn gywir, ac roeddwn yn teimlo ei fod yn bwysig, oherwydd mae temtasiwn bob amser i anghytuno â chynnig. Rwy'n meddwl pe bawn i'n anghytuno â hyn, byddwn yn dod i siarad â chi'n llawer mwy chwyn, a chrynhoi heidiau o bobl i ddod i ddweud yr un peth. Ond nid dyna fel mae pethau, ac mewn amgylchiadau anodd iawn, mae'r Comisiynwyr wedi llunio'r ateb gorau. Rwy'n meddwl, o'm safbwynt fel Cadeirydd y Ceidwadwyr Cymreig, mai'r ateb gorau i Gymru ac i ganolbarth Cymru fel y mae'n effeithio ar Sir Drefaldwyn, yw etholaeth Maldwyn a Glyndŵr, dyma'r ateb gorau y gallech fod wedi'i gynnig, i ganolbarth Cymru hefyd.

Felly, mae fy neges i chi yn un gwbl gadarnhaol. Rwy'n gobeithio'n fawr ein bod yn cadw at y cynigion fel y maent ac mai dyma fydd y casgliadau terfynol.

Diolch yn fawr iawn i chi.


SP: Diolch i chi. A oes unrhyw gwestiynau o'r llawr? Neu unrhyw bwyntiau sydd angen eu hegluro, ddylwn i ddweud? Gydweithwyr? Mae gen i un. Sonioch chi am hafaliad y gogledd a'r de, os caf ei osod felly.

GD: Ie.

[01:45:56]

SP: Er bod eich ymateb i'r cynigion cychwynnol yn gadarnhaol, a gallaf ddeall y cysylltiad â sir bresennol... ag etholaeth Sir Drefaldwyn. Rydym yn gweld gwrthwynebiad sylweddol i ganlyniadau'r cynigion cychwynnol mewn rhannau eraill o Gymru; yn y bôn, mae prinder y boblogaeth ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed yn cyfateb i'r un mater yn Sir Drefaldwyn. Ac roeddwn yn meddwl tybed a yw unrhyw un o'r sefydliadau a gynrychiolwyd gennych wedi rhoi unrhyw ystyriaeth i hynny? Er enghraifft, mae Cwm Tawe yn cael ei gynnwys, yn y cynigion cychwynnol, yn etholaeth Aberhonddu a Maesyfed, ac mae hynny'n achosi gwrthwynebiad sylweddol.

GD: Gallaf ddeall hynny, gallaf ddeall bod agweddau negyddol ynghylch rhai o'r argymhellion. Mae'n anochel, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid i chi ystyried y dewisiadau eraill, bob amser. Yr hyn rydych yn edrych arno weithiau yw'r dewis arall gorau, nid atebion anfoddhaol, ond atebion boddhaol o fewn y ddeddfwriaeth. Rwyf wedi treulio llawer o amser, a gwn, o safbwynt Cymru, ac mae hyn wedi cael sylw, fod



Gogledd Orllewin Cymru yn fater mawr yn ein trafodaethau o safbwynt Cymru, a hefyd dyfodol etholaeth Aberhonddu a Maesyfed, sy'n etholaeth fawr a phwysig iawn i mi, rwy'n ei hadnabod yn dda iawn, iawn. Ond rydym wedi treulio llawer o amser yn ystyried hynny, ac yn y pen draw, roeddech yn dweud, wel, mae problem ag un o'r atebion ond mae'r dewisiadau eraill yn waeth.

Yn y pen draw, yn sicr ar lefel Cymru, er y byddai anghytuno o fewn fy mhlaidd fy hun yng Ngogledd Orllewin Cymru, yn ddi-os, roedd yn fater digon cynhennus. Ni welsom unrhyw anghytundeb o fewn ein plaid, nid wyf yn meddwl, ar wneud Sir Drefaldwyn ac Aberhonddu a Maesyfed yn seddau ar wahân fel y maent ar hyn o bryd. Rwy'n meddwl y byddai'r gwrthwynebiad yn enfawr pe baem yn cymryd hanner Dyffryn Hafren i un cyfeiriad a hanner i'r cyfeiriad arall. Byddai hynny'n eithaf trychinebus. Ac rwy'n meddwl pe baech yn cynnal cyfarfod i ystyried hynny wedyn, byddai llawer mwy o bobl yn dod i siarad â chi. Gallwn warantu hynny i chi. Byddai ond yn rhaid i mi ddod â'm teulu fy hun, ac rwy'n addo y byddwn yn gwneud hynny.

SP: Rwy'n siŵr bod hynny'n wir. Diolch yn fawr iawn i chi.

GD: Iawn, mae wedi bod yn bleser. Diolch i chi.

SP: Diolch.

SW: Heb gyrraedd hyd yn hyn? Ie?

SP: Heb gyrraedd.

SW: Heb gyrraedd, heb gyrraedd hyd yn hyn. Gallwch gymryd egwyl.


SP: Rydym yn dal i aros am gwpl o siaradwyr, felly rwy'n cynnig gohirio am... tan ddau, dau o'r gloch, pan fyddwn yn gwneud cyhoeddiad pellach ar aildrefnu'r siaradwyr hynny ai peidio. Mae te a choffi ar gael i'r sawl sydd ei eisiau, a byddwn yn eich gweld am ddau o'r gloch. Diolch i chi.

[Egwyl 01:49:13 – 02:12:27]

SP: Tua dau, dau o'r gloch. Er budd y sawl sydd newydd ymuno â ni, nid wyf yn mynd i ailadrodd yr holl gyflwyniadau a wnaed eisoes heddiw, ond Steven Phillips yw fy enw, rwy'n un o bedwar Comisiynydd Cynorthwyol ac rwy'n cadeirio'r sesiwn y prynhawn yma.

[02:12:40]

Ein siaradwr nesaf yw Sarah Atherton, AS. Er budd y sawl sydd newydd ymuno â ni, gallwch siarad am 10 munud, a chewch rybudd dau funud gan fy nghydweithiwr acw ar ôl wyth munud. Bydd cyfle i mi a'm cydweithwyr egluro pwyntiau, ac aelodau'r gynulleidfa. Ond nid ydym yma i gael trafodaeth ar y cynigion, fel y cyfryw. Fel aelodau annibynnol, ni chwaraeom unrhyw ran yn y gwaith o lunio'r cynigion cychwynnol, ac rydym yma i gasglu tystiolaeth.



Mae'r llawr yn agored i chi. At y ddarlithell, os gwelwch yn dda. Os gallwch roi eich enw, eich ardal breswyl, a ph'un a ydych chi'n siarad fel unigolyn neu'n cynrychioli sefydliad, byddai hynny'n ddefnyddiol iawn.

SA: Iawn. Sarah Atherton wyf i, rwy'n Aelod Seneddol dros Wrecsam. Foneddigion a boneddigesau, diolch i chi am fy nghael i yma heddiw, a hoffwn ddiolch i'r Comisiwn Ffiniau am drefnu'r gwrandawriad cyhoeddus hwn.

Yn gyntaf, rwy'n gwerthfawrogi'r angen i adolygu'r ffiniau Seneddol, o ystyried y newidiadau demograffig sydd wedi digwydd dros y degawd diwethaf. Ac er bod rhai yng Nghymru yn anhapus â'r gostyngiad yn nifer y seddau yng Nghymru, gwneir hyn er mwyn sicrhau cydraddoldeb â gweddill y Deyrnas Unedig. Yn yr etholiad diwethaf, roedd gan etholaethau cyfartalog yng Nghymru lai o etholwyr nag etholaethau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac felly mae'n briodol bod y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ceisio datrys hyn.

Heddiw, hoffwn ymdrin â thri phwnc. Fy meddyliau ar gynnig cychwynnol y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Wrecsam a'r ardaloedd cyfagos, fy awgrymiadau ar sut y gellid gwella'r hwn, ac yn olaf, fy ngwrthgynnig, sydd wedi... mae'n ddrwg gennyf, a gyflwynais yn fy ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol, BCW-9731.


Yn gyffredinol, mae'r cynigion cychwynnol a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau ar gyfer Wrecsam, a fyddai'n gweld etholaeth bresennol Wrecsam yn cynyddu i gynnwys wardiau o etholaeth De Clwyd, yn cynrychioli cydbwysedd da rhwng cynyddu maint y seddau i gyfateb i'r ystod etholwyr sy'n angenrheidiol, a chynnal cysylltiadau cymunedol a diwylliannol.

Mae gan y wardiau ychwanegol gysylltiadau hanesyddol hirsefydlog â Wrecsam. Bu'r dref yn ganolfan economaidd a chymdeithasol leol ers amser maith, ac mae'r holl wardiau a ychwanegwyd o dan y cynnig fel rhan o'r... eisoes yn rhan o ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn fy nghyflwyniad, gellid gwella'r cynnig cychwynnol. Byddwn yn awgrymu y dylai etholaeth newydd Wrecsam gynnwys wardiau Brymbo a Mwynglawdd, a fyddai, o dan y cynnig cychwynnol, yn symud o Dde Clwyd i Alun a Glannau Dyfrdwy.

[02:15:44]

Mae sawl pryder ynghylch yr awgrym hwn i'w symud i Alun a Glannau Dyfrdwy. Yn gyntaf, byddai hyn yn creu'r sefyllfa anfoddfaol lle byddai etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy yn pontio ardaloedd dau gyngor, sef Wrecsam a Sir y Fflint. Er bod cynsail i'r sefyllfa ac ni fyddai'n creu unrhyw broblemau sylfaenol, byddai'n mynd yn groes i nod y Comisiwn Ffiniau o roi sylw dyledus i ffiniau llywodraeth leol. Yn bwysig iawn, mae gan wardiau Brymbo a Mwynglawdd gysylltiadau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol llawer cryfach â Wrecsam nag sydd ganddynt ag Alun a Glannau Dyfrdwy. Maent yn uniaethu â Wrecsam oherwydd y dreftadaeth lofaol gref y maent yn ei rhannu â chymuned ehangach Wrecsam.

Mae Brymbo a Mwynglawdd wedi'u lleoli bedair milltir yn unig o Wrecsam ac mae'r seilwaith lleol, y ffyrdd a'r cysylltiadau trafniadaeth, yn cydgyfarfod yn nhref Wrecsam, yn hytrach nag aneddiadau yn Alun a Glannau Dyfrdwy fel Cei Connah, Bwcle a Brychdyn. Ar lefel gymunedol, mae gan Frymbo a Mwynglawdd gysylltiadau agos





hefyd ag ardaloedd cyfagos Coedpoeth, Bryn Cefn a Gwenfro. O dan gynigion y Comisiwn Ffiniau, bydd y wardiau hyn yn rhan o sedd newydd Wrecsam, ac felly mae cynnig cychwynnol y Comisiwn wedi rhannu aneddiadau cydgysylltiedig rhwng y ddwy etholaeth. Fel y cyfryw, byddai ychwanegu wardiau Brymbo a Mwynglawdd at etholaeth Wrecsam yn cefnogi ymdrechion y Comisiwn Ffiniau i gadw cysylltiadau cymunedol.

Yn bwysig iawn, gwn fod cynrychiolwyr lleol wardiau Brymbo a Mwynglawdd yn cefnogi'r awgrym hwn hefyd. Dywedodd y Cynghorydd Paul Rogers, y Cynghorydd dros Frymbo, yn ei gyflwyniad ar y cynigion cychwynnol fod corff sylweddol o farn yn gwrthwynebu'r cynigion i gynnwys ward Brymbo yn Alun a Glannau Dyfrdwy.

Fy mhwynt olaf mewn perthynas â hyn yw bod cyflwyniadau eraill gan aelodau'r cyhoedd wedi ailadrodd y farn na ddylai Brymbo a Mwynglawdd fod yn rhan o etholaeth newydd Alun a Glannau Dyfrdwy. Mae'r ymatebion hyn yn dangos cryfder y teimlad ar y mater gan y bobl y dylem fod yn gwrandao arnynt, sef y bobl leol.


Gyda hyn mewn golwg, ac i sicrhau bod etholaeth newydd Wrecsam yn aros o fewn y nifer gofynnol o etholwyr, cynigiau y dylid ychwanegu wardiau Pant, Johnstown a De Ponciau at etholaeth arfaethedig Maldwyn a Glyndŵr. Er y byddai hyn yn rhannu Ponciau ar draws dwy etholaeth, mae'r ward eisoes yn cynnwys dwy gymuned sydd ar wahân oddi wrth ei gilydd. Mae Ponciau, sef yr ardal drefol yn ne'r ward, yn ffurfio un gymuned glir, ochr yn ochr â wardiau Pant a Johnstown. Ac mae rhan ogleddol y ward yn fwy gwledig ac yn cynnwys pentrefi Pentrebychan ac Aberoer, sy'n llai o faint ac yn fwy gwasgaredig

Felly, mae ward Ponciau wedi'i rhannu'n daclus eisoes, gyda darn o lain las yn rhoi gwahaniad clir rhwng yr aneddiadau gwahanol yn y ward. Gan adlewyrchu'r gwahaniaethau daearyddol a chymdeithasol hyn, mae ward Ponciau eisoes yn cael ei gwasanaethu gan ddau gyngor cymuned, sef Esclusham a Rhos. Felly, byddai rhannu ward Ponciau rhwng dwy etholaeth yn barhad o'r rhaniad lleol sy'n bodoli. Yn bwysig iawn, byddai'r cynnig hwn hefyd yn adlewyrchu'r cysylltiadau cymunedol, cymdeithasol ac economaidd presennol rhwng Ponciau, Johnstown a Phant, a Rhiwabon a Phen-y-cae.

Yn gyffredinol, byddai ychwanegu Mwynglawdd a Brymbo, a hepgor Pant, Johnstown a Phen-y-cae... De Ponciau, yn gosod 73,636 o etholwyr yn etholaeth newydd Wrecsam, gan fodloni gofyniad y Comisiwn Ffiniau.

[02:20:05]

O ran fy mhwynt olaf yn ymwneud â gwrthgynigion, gwerthfawrogaf fod cyflwyniadau i'r ymgynghoriad wedi amlinellu cynigion amgen i'r rhai a gefnogir gennyf i ac eraill. Fodd bynnag, hoffwn nodi pam na fyddai'r dewisiadau amgen hyn yn dderbyniol, o ystyried nodau datganedig y Comisiwn. Yn gyntaf, mae cyflwyniad 9766 yn awgrymu etholaeth Wrecsam yn seiliedig ar ardal Cyngor Wrecsam, gan gynnwys tref Wrecsam, ardal Rhiwabon, a Dyffryn Ceiriog, ond heb gynnwys ardaloedd i'r gogledd o dref Wrecsam, sef Gresffordd, Llai, Marford, Yr Orsedd a Gwersyllt. Yn hytrach, byddai'r rhain yn rhan o etholaeth newydd yr Wyddgrug ac Alun. Ni fyddai hyn yn ateb derbyniol, gan y byddai'n ynysu wardiau gogleddol y Cyngor, sy'n ymylu ar dref





Wrecsam yn ddaearyddol, gan ddewis yn lle hynny i gynnwys rhubanau o ardaloedd gwledig sydd â chysylltiadau gwannach â chanol y dref ei hun.

Mae cyflwyniad 9822 yn annerbyniol am yr un rheswm. Byddai'n ynysu wardiau gogleddol etholaeth bresennol Wrecsam, gan holli cymunedau sydd â chysylltiadau hanesyddol a diwylliannol â'i gilydd.

Yn yr un modd, mae cyflwyniad 10070 yn awgrymu y byddai etholaeth arfaethedig Dwyrain Sir y Fflint yn cymryd tair ward Gwersyllt, a Llai, o Wrecsam. Byddai'r cynnig hwn yn creu anawsterau, o ystyried realiti'r ardal. Mae cymuned Llai wedi'i chysylltu'n agos â chymunedau Gresffordd, Marford a'r Orsedd trwy ddarpariaeth addysg a gofal iechyd, er enghraifft, Meddygon Teulu Alyn, Ysgol yr Holl Saint, ac Ysgol Darland.

Yn olaf, fel enghraifft fwy dybryd o rannu cymunedau, mae cyflwyniad 9924 yn cynnig y dylid rhannu Wrecsam yn ddwy etholaeth, sef Gogledd Wrecsam a'r Wyddgrug, a'r Gororau a De Wrecsam. Byddai'r cynnig hwn yn chwalu hunaniaeth Wrecsam.

I gloi, croesawaf fod y cynigion cychwynnol yn cynnal etholaeth bresennol Wrecsam, gan ychwanegu wardiau sydd eisoes â chysylltiadau diwylliannol, hanesyddol ac economaidd cryf â'r dref. Mae'r holl wardiau a ychwanegwyd o dan y cynnig cychwynnol yn rhan o ardal Cyngor Wrecsam, felly mae'r cynigion yn cynrychioli dilyniant naturiol. Fodd bynnag, mae llawer yn pryderu am yr awgrym i gynnwys Brymbo a Mwynglawdd yn Alun a Glannau Dyfrdwy. Felly, dylai'r Comisiwn Ffiniau edrych ar fy ngwrthgynnig, sydd wedi'i groesawu'n lleol, a fyddai'n gweld y wardiau hyn yn cael eu hychwanegu at etholaeth Wrecsam. Byddai ychwanegu'r wardiau hyn yn creu goblygiadau o ran maint yr etholaeth, a byddai angen gwneud Pant, De Ponciau a Johnstown yn rhan o etholaeth newydd Maldwyn a Glyndŵr. Byddai hyn yn darparu ateb gwell na'r un a awgrymir ar hyn o bryd.


Diolch yn fawr.

SP: Diolch yn fawr iawn i chi. A oes unrhyw gwestiynau o'r llawr, neu bwyntiau sydd angen eglurhad? Na, ni welaf unrhyw rai. Fy nghydweithwyr? Mae gen i un, mae'n fwy o... rwy'n meddwl fy mod yn gwybod yr ateb i hyn ond mae'n bwynt i'w gadarnhau. Rydym wedi clywed gan, wel, y gefnogaeth y prynhawn yma i etholaeth Maldwyn a Glyndŵr fel y'i ffurfiwyd yn y cynigion cychwynnol, yn enwedig mewn perthynas ag ardaloedd fel Rhiwabon, y Waun, Pen-y-cae ac yn y blaen. Ac rwy'n meddwl fy mod yn clywed yr un peth gennych chi, rydych chi'n gysurus ynghylch cynnwys yr ardaloedd hynny yn yr etholaeth honno, yn hytrach na Wrecsam.

[02:23:41]

Ond rydym wedi derbyn cynrychiolaethau sylweddol yn gofyn am gynnwys yr ardaloedd hynny o fewn etholaeth Wrecsam. A gaf i gadarnhad bod fy nealltwriaeth yn gywir?

SA: Ydi. Er mwyn cydymffurfio â'ch gofynion o ran niferoedd yr etholwyr, rwy'n meddwl bod dadl gryfach dros gadw Mwynglawdd a Brymbo yn Wrecsam. Ceir rhaniad naturiol ym Mhonciau, beth bynnag, ac mae De Ponciau yn sicr yn alinio'n well â Rhiwabon. Felly, byddai'n rhaniad naturiol i gadw'r wardiau hynny ym Maldwyn a Glyndŵr.



SP: Iawn, diolch yn fawr iawn i chi. Dyma'r cyfle olaf am unrhyw sylwadau. Na? Diolch yn fawr iawn.

Rydym yn aros am un siaradwr yn benodol sy'n rhedeg yn hwyr, mae'n debyg. Ond rwy'n deall bod sylwedydd eisiau gwneud sylw, os gallaf ei roi felly. Na?

SW: Na.

SP: Os felly, rwy'n meddwl y cawn egwyl, ac aros i weld a fydd y siaradwr hwn yn gallu ymuno â ni heddiw ai peidio. Ni roddaf amser penodol, oherwydd nid wyf yn gwybod ble mae hi, a dweud y gwir. Felly, cawn egwyl o hanner awr o leiaf, yn ôl pob tebyg, ond rhown hysbysiad ar y drws os bydd hi'n cyrraedd. Diolch yn fawr iawn.

P2: A gaf i holi un cwestiwn, felly?

SP: Yn siŵr.

P2: Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu cysylltu ar y ffôn ac yn y blaen... mae'r rhan fwyaf o bobl yn gallu cysylltu ar y ffôn a thrwy ddulliau eraill. Os yw rhywun yn gwybod pryd y dylent fod yma, mae'n siŵr y gallant ddweud, rwy'n cael trafferthion a byddaf yma mewn 30 munud?

P3: Ai Ruth yw hon?

SW: Ie.

P3: Rwyf wedi ceisio cysylltu... hynny yw, mae cryfder y signal yn wael iawn. Rwyf wedi ceisio cysylltu â hi, yn ofer, felly mae'n bosibl iawn ei bod yn teithio ar hyn o bryd.

SP: Wel, rwy'n meddwl...

P3: Rwyf wedi gadael neges iddi a dweud ein bod [anghlywadwy 02:25:45].

[02:25:48]

SP: Ie. Hynny yw, dwi'n deall ei bod hi'n hwyr oherwydd llifogydd yn rhywle, sy'n gwbl ddealladwy o ystyried y tywydd ofnadwy yn ystod y dyddiau diwethaf. Felly, rwy'n meddwl, wyddoch chi, fy mod yn barod i fod yn hyblyg yn y bôn. Ond nid yw hi yma ar hyn o bryd, felly bydd yn rhaid i gael egwyl, ac fel rwy'n dweud, cawn ryw ffordd o roi gwybod i chi am ei sefyllfa. Ond byddwn yn cymryd egwyl am o leiaf hanner awr, a byddwn yn ceisio darganfod beth yw'r sefyllfa. Diolch yn fawr iawn

P4: Mae'n ddrwg gennyf, pwy yw'r person dan sylw?

SP: Mae'n ddrwg gennyf.

P4: Pwy yw'r person dan sylw?

SP: Ei henw yw Ruth Canning.




P4: Diolch.

P4: Gall ddod yma unrhyw bryd tan wyth o'r gloch, beth bynnag.

SW: Ie.

[Egwyl 02:26:39 – 02:50:39]

[Diwedd y Trawsgrifiad 02:50:39]ss





**Comisiwn Ffiniau  
i Gymru**

---

**Boundary Commission  
for Wales**

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth, e-byst a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.  
Er mwyn cysylltu gyda'r Comisiwn, ysgrifennwch i:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Llawr Gwaelod, Ty Hastings, Llys Fitzalan  
Caerdydd, CF24 0BL

Rhif Ffon: +44 (0)29 20464819  
Rhif Ffon: +44 (0)29 21055521  
E-bost: [bcw@ffiniau.cymru](mailto:bcw@ffiniau.cymru)